Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 16/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 28/03/2017

# Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch

## ADRODDIAD TERFYNOL

© Hawlfraint y Goron 2017 ISBN Digidol 978-1-4734-8320-0

# Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch: adroddiad terfynol

Cordis Bright

CordisBright

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, a fynegir yn yr adroddiad hwn.


Rhagor o wybodaeth:
Semele Mylona
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 2

Geirfa ..... 3

Trosolwg o benderfyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n aildroseddu ..... 3

Diolch ..... 4

1. Cefndir ..... 5

2. Methodoleg ..... 19

3. Canfyddiadau ..... 26

4. Trafodaeth ..... 55

5. Casgliadau ..... 59

Cyfeiriadau ..... 62

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Nifer targed y bobl ifanc wedi'u mynegi fel canran y Gorchmynion Cymunedol....17

Tabl 2: Nifer y bobl ifanc â hanes cyson o droseddu....17

Tabl 3: Trosolwg o'r fethodoleg (dulliau a ddefnyddiwyd a'r ymatebion a gafwyd)....21

Tabl 4: Nifer y bobl ifanc a recriwtiwyd i'r treial ym mis Mai 2015....29

Tabl 5: Nifer y bobl ifanc a gafodd eu recriwtio gan y treial erbyn Hydref 2016....30

Tabl 6: Sgoriau cyfartalog ar gyfer risg o niwed difrifol a natur agored i niwed ar ddechrau ymgysylltiad â'r dull ECM, yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid ac yn gyffredinol....36

Tabl 7: Canfyddiadau mewn perthynas â newidiadau mewn ymarfer....38

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Nifer y troseddwyr, aildroseddwyr ac aildroseddau, blynyddoedd yn diweddu Rhagfyr 2004 i Mawrth 2015....6

Ffigur 2: Dull ECM....8

Ffigur 3: Camau'r Model Gwella o Drawma....10

## Geirfa

| | |
|---|---|
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CBT | Therapi Gwybyddol Ymddygiadol |
| ECM | Rheoli Achosion Uwch |
| FACTS | Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan |
| GP | Meddyg Teulu |
| ISS | Goruchwylio ac Arolygu Dwys |
| PNC | Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu |
| TRM | Model Gwella o Drawma |
| BCI | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| YOGRS | Graddfa Ailgollfarnu Grŵp Troseddwyr Ifanc |
| Timau Troseddau Ieuenctid | Tîm Troseddau Ieuenctid |
| YRO | Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc |

**Trosolwg o benderfyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n aildroseddu**

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y penderfyniadau y gellir eu rhoi i bobl ifanc (10-17 oed) sy'n troseddu. Isod, ceir disgrifiadau cryno o'r rhai sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn a/neu'r atodiadau.

| | |
|---|---|
| Rhybudd Olaf | Penderfyniad tu allan i'r llys a gafodd ei ddisodli gan Rybuddion Ieuenctid a Rhybuddio Ieuenctid Amodol yn 2013 (gweler isod). |
| Goruchwylio ac Arolygu Dwys | Amod y gellir ei osod fel rhan o Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Gellir gorfodi ISS am hyd at 12 mis, gyda'r amod bod gan berson ifanc, ar ddechrau'r gorchymyn, 25 awr o gysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid bob wythnos. |

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Atgyfeirio | Dedfryd gymunedol (o rhwng 3 a 12 mis) ar gyfer pobl ifanc sy’n ymddangos mewn llys am y tro cyntaf ac sy’n pledio’n euog. Gellir ei gyflwyno dan amgylchiadau eraill hefyd. Mae’r person ifanc yn mynychu cyfarfod panel gydag aelodau o’r gymuned a’r Tîm Troseddau Ieuenctid. Bydd contract, yn cynnwys ymrwymiadau y cytunwyd arnynt, yn cael ei lunio gyda’r person ifanc, i’w gyflawni yn ystod y gorchymyn. Bydd elfennau adfer ac adsefydlu bob amser yn rhan o’r contract. |
| Rhybudd Ieuenctid | Penderfyniad tu allan i’r llys sydd ar gael i bobl ifanc sy’n troseddu am y tro cyntaf neu’n cyflawni trosedd lefel isel. Rhaid i’r person ifanc gyfaddef ei fod yn euog cyn derbyn Rhybudd Ieuenctid a gall dderbyn cymorth gwirfoddol gan y Tîm Troseddau Ieuenctid i’w helpu i fynd i’r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd. |
| Rhybudd Ieuenctid Amodol | Penderfyniad tu allan i’r llys sydd ar gael i bobl ifanc sy’n troseddu am y tro cyntaf neu’n cyflawni trosedd lefel isel. Rhaid i’r person ifanc gydymffurfio â’r Tîm Troseddau Ieuenctid yn achos unrhyw amodau a gyflwynir. |
| Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid | Dedfryd gymunedol sy’n gallu para am 3 blynedd ar y mwyaf. Gellir atodi un neu fwy o 18 o amodau at y gorchymyn, gan gynnwys Goruchwylio ac Arolygu, cyrffiw a gwaith di-dâl. |
| Penderfyniad Adferol Ieuenctid | Penderfyniad tu allan i’r llys (gelwir hefyd yn benderfyniad cymunedol) a gyflwynir gan yr heddlu i berson ifanc sydd wedi creu mân drosedd, lle ceir cyfaddefiad o euogrwydd. Gwneir hyn yn lle ymdrin â’r achos trwy’r system cyfiawnder troseddol. Y nod yw sicrhau penderfyniad adferol ei natur, a gwneud iawn yn uniongyrchol i’r dioddefwr. |

## Diolch

Hoffai Cordis Bright ddiolch i bawb am gyfrannu at a/neu gefnogi’r gwerthusiad hwn, gan gynnwys pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a staff Timau Troseddau Ieuenctids, FACTS, YJB Cymru a Llywodraeth Cymru.

# 1. Cefndir

## Trosolwg

1.1 Bu Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (YJB) a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phedwar Tîm Troseddau Ieuenctid[1] (tri yn ddiweddarach) a Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS) i dreialu dull Rheoli Achosion Uwch (ECM) newydd o weithio gyda phobl ifanc oedd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n seiliedig ar y Model Gwella o Drawma (TRM) ac fe'i cynlluniwyd i wneud y canlynol:

- Darparu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth i ymarferwyr a rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid o ran sut y gall ymlyniad cynnar, trawma a digwyddiadau niweidiol bywyd effeithio ar allu person ifanc i gymryd rhan yn effeithiol yn ymyriadau'r system cyfiawnder ieuenctid.
- Darparu dull sy'n seiliedig ar seicoleg o ffurfio achos a chynllunio ymyriadau amlasiantaeth. Byddai hyn, yn ei dro, yn galluogi staff cyfiawnder ieuenctid i deilwra a threfnu ymyriadau pellach yn fwy effeithiol yn unol ag anghenion datblygiadol a meddyliol pobl ifanc unigol.

1.2 Cafodd cwmni Cordis Bright ei gomisiynu gan YJB Cymru a Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015 i werthuso'r treial hwn. Comisiynwyd y gwerthusiad ym mis Ebrill 2015. Roedd y gwaith maes yn para rhwng Tachwedd 2015 a Hydref 2016. Dyma adroddiad terfynol y gwerthusiad.

## Cefndir a chyd-destun

1.3 Mae *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf* (Gorffennaf 2014) yn darparu fframwaith ar gyfer atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu ledled Cymru. Mae'r strategaeth cyfiawnder ieuenctid ar y cyd hwn rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn cyflwyno pum blaenoriaeth ar gyfer sicrhau dull cydlynol o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, h.y. dull partneriaeth wedi'i gyflwyno'n dda; ymyrraeth, atal a dargyfeirio'n gynnar; lleihau achosion o aildroseddu; defnydd effeithiol o'r ddalfa; ac ailsefydlu ac ailintegreiddio ar ddiwedd y ddedfryd. Profwyd y dull ECM fel rhan o'r blaenoriaethau hyn.


1.4 Mae'r strategaeth cyfiawnder ieuenctid ar y cyd yn esbonio'r sail resymegol dros ddatblygu dull ECM. Mae'n pwysleisio'r ffaith bod gan garfan graidd o bobl ifanc gyfraddau uchel o aildroseddu a bod gan y bobl ifanc hyn gymhlethdodau cymhleth yn aml (e.e. cysylltiad blaenorol neu gyfredol â'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu wasanaethau iechyd meddwl; anghenion addysgol arbennig). Mae'n argymell bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gallu diwallu anghenion y grŵp hwn o bobl ifanc.

1.5 Mae'r materion a nodwyd yn y strategaeth cyfiawnder ieuenctid ar y cyd yn cyd-fynd ag ystadegau mwy diweddar ar gyfer 2015-16 a gasglwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar

[1] Defnyddir y term hwn gydol yr adroddiad yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

gyfer Cymru a Lloegr (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017). Ceir crynodeb o hyn yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Nifer y troseddwyr, aildroseddwyr ac aildroseddau, blynyddoedd yn diweddu Rhagfyr 2004 i Mawrth 2015**




Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017

1.6 Mae Ffigur 1 yn dangos bod nifer y bobl ifanc yn y garfan droseddu ledled Cymru a Lloegr wedi gostwng 76 y cant i 36,300, rhwng Rhagfyr 2004 a Mawrth 2015. Ar yr un pryd, gostyngodd nifer y bobl ifanc yn y garfan a oedd yn aildroseddwyr 73 y cant i 13,700. Gan fod maint cyfanswm y garfan troseddwyr wedi lleihau o gyfran uwch na nifer yr aildroseddwyr, mae'r gyfradd ailadroseddu wedi cynyddu dros y cyfnod.

1.7 O ran proffil y bobl ifanc sy'n aildroseddu, mae'r strategaeth cyfiawnder ieuenctid ar y cyd yn cyfeirio at waith proffilio a gynhaliwyd gan YJB Cymru (YJB Cymru, 2012). Roedd yn archwilio data'r Cyfrifiadur Heddlu Cenedlaethol (PNC) yn ymwneud â'r holl bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2009. Y nod oedd proffilio pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid gyda hanes o gael eu collfarnu o 25 o droseddau neu fwy. Gwelodd yr astudiaeth fod 303 o bobl ifanc wedi'u heuogfarn o 25 neu fwy o droseddau. Cynhaliwyd dadansoddiad manylach o 117 o achosion o 10 Tîm Troseddau Ieuenctid ar draws 13 awdurdod lleol (wedi'u dewis i adlewyrchu gwahaniaethau ledled Cymru, e.e. maint carfan, lleoliad ac amrywiaeth y llwyth achosion). Roedd yn tynnu sylw at amrywiaeth o nodweddion y bobl ifanc hyn. Er enghraifft, roedd:

- 48 y cant wedi gweld achos treisgar yn y teulu

- 55 y cant wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso
- 62 y cant wedi cael trafferth dod i delerau â thrawma
- 79 y cant wedi bod yn gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol
- 81 y cant heb gymwysterau
- 95 y cant â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

1.8 Mae anghenion penodol y garfan hon o bobl ifanc wedi'i hategu ymhellach gan ystadegau ac ymchwil eraill. Er enghraifft, roedd archwiliad o wasanaethau iechyd meddwl yn y system cyfiawnder ieuenctid yn Lloegr (Berlowitz, 2011) yn dangos bod gan bobl ifanc broblemau emosiynol ac iechyd meddwl lefel isel, sy'n deillio o drawma a thrallodion cynnar. Mae hyn yn ychwanegu at gymhlethdod eu hanghenion uniongyrchol. Mae'r materion/problemau hyn y tu allan i'r trothwy ar gyfer gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), am nad oes gan y bobl ifanc hyn nam y gellid rhoi diagnosis iddo (Nacro Cymru, 2009). Felly, daw'r ddau ymchwil i'r casgliad bod heriau mawr yn wynebu ymarferwyr cyfiawnder troseddol wrth ymateb i anghenion datblygiadol unigolion.

1.9 Yn sgil y canfyddiadau hyn, cytunodd y strategaeth ar y cyd i ddatblygu dull rheoli achosion uwch newydd ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid. Arweiniodd hyn at greu'r dull ECM. Mae'n cyd-fynd â mentrau eraill sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag aildroseddu, yn enwedig: cefnogi rôl Timau Troseddau Ieuenctid; deall aildroseddu a mynd i'r afael ag anghenion cymhleth; a gwella'r cysylltiadau â, a phontio pobl ifanc i wasanaethau oedolion (Llywodraeth Cymru/YJB, 2014, p16-17).

**Ynglŷn â'r dull Rheoli Achosion Uwch**


1.10 Yn 2013, fe wnaeth y Panel Datblygu Ymarfer (gwaith ar y cyd rhwng YJB Cymru, Llywodraeth Cymru, Timau Troseddau Ieuenctid a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru) adeiladu ar argymhellion strategaeth ar y cyd cyfiawnder ieuenctid a chymeradwyo cynnig y dylid datblygu dull newydd o reoli achosion, yn seiliedig ar y Model Gwella o Drawma. Roedd hyn yn cynnwys prosiect tair blynedd i weithio gyda Thimau Troseddau Ieuenctid er mwyn datblygu'r dull, ei dreialu a'i werthuso. Dyma'r dull ECM.

1.11 Mae'r dull ECM yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- defnyddio'r Model Gwella o Drawma fel y ddamcaniaeth sylfaenol
- rolau penodol er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r gwaith fesul tipyn
- hyfforddiant i ymarferwyr a rheolwyr
- meini prawf cymhwysedd clir
- sicrhau cydsyniad gwybodus gan bobl ifanc i ddefnyddio'r dull hwn, a gan eu rhieni/gofalwyr lle bo'n berthnasol
- dull creu achos sy'n defnyddio sgiliau seicolegydd clinigol
- nod o sicrhau bod ymyriadau ac arferion yn cyfateb yn well i anghenion datblygiadol pobl ifanc
- darparu goruchwyliaeth glinigol i ymarferwyr Timau Troseddwyr Ieuenctid

1.12 Mae pob elfen wedi'i chrynhoi yn Ffigur 2 a'u hesbonio'n fanylach isod.

**Ffigur 2: Dull ECM**




*Model Gwella o Drawma*

1.13 Cafodd y Model Gwella o Drawma ei ddatblygu gan Dr Tricia Skuse a Jonny Matthew gan adeiladu ar eu gwaith gyda phlant ifanc oedd naill ai'n treulio cyfnod o ddedfryd yng Nghartref Diogel i Blant Hillside, neu'n destun gorchmynion llety diogel. Mae'n seiliedig ar: ddamcaniaethau ar ddatblygiad ac ymlyniad plant; namau niwrolegol ac effaith cyflyrau camdriniaeth ac ymddygiadol; iechyd meddwl pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid; ac ymyriadau, ymarfer effeithiol a chyfraddau gadael triniaeth (Skuse a Matthew, 2015).

1.14 Mae'r model yn pwysleisio'r ffaith bod trawma yn ystod datblygiad a/neu nam cynnar yn y berthynas ymlyniad rhwng plentyn a'r rhoddwr gofal yn gallu arwain at broblemau a all gael eu ffocysu'n fewnol (gorbryder, iselder, teimladau o hunanladdiad) neu'n allanol (troseddu, ymddygiad ymosodol, byrbwylltra) (TraumaRecoveryModel.com, 2016). Mae TRIM yn awgrymu bod pobl ifanc sy'n profi trawma yn gynnar yn eu plentyndod yn teimlo'n gaeth yng nghamau cynnar eu datblygiad emosiynol, sy'n creu goblygiadau sylweddol o ran sut i ymyrryd a gweithio gyda phobl ifanc (Llywodraeth Cymru 2015a). Yn ôl y model, nid yw pobl ifanc sy'n profi'r math hwn o anhawster i lefel gronig yn gallu elwa ar ymyriadau fel therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) sy'n gofyn am y gallu i feddwl yn haniaethol, a gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill (empathi). Mae'r model yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos nad yw llawer o bobl ifanc yn cyrraedd oedran meddwl gweithrediadol ffurfiol na'r gallu i feddwl yn haniaethol nes mor hwyr ag 20 oed (Skuse & Matthew, 2015).

1.15 Mae'r Model Gwella o Drawma yn cynnwys symud pobl ifanc trwy gyfres o gamau datblygiadol, dros gyfnod o amser (gweler Ffigur 3) (Skuse a Matthew, 2015). Does dim modd symud ymlaen i'r lefel nesaf heb gyflawni amcanion y lefel flaenorol yn gyntaf.

**Ffigur 3: Camau'r Model Gwella o Drawma**



1.16 Mae Ffigur 3 yn dangos bod y lefel gyntaf (sylfaen) yn seiliedig ar y syniad o 'achubiaeth' h.y. mae modd helpu pobl ifanc i gael bywydau gwell a chanlyniadau gwell.

1.17 Mae ail lefel y model yn dilyn hierarchaeth Maslow o anghenion (Maslow, 1943) sy'n rhagdybio y gall twf seicolegol iachus ond digwydd os yw'r anghenion ffisiolegol a diogelwch sylfaenol wedi'u bodloni. O'r herwydd, mae ail lefel y model yn golygu bod angen i gymorth ganolbwyntio ar helpu i sefydlu strwythur a gorchwylion arferol bywyd bob dydd, e.e. llety diogel, prydau rheolaidd, amseroedd gwely cyson, hylendid personol, arferion addysgu, terfynau cyson a disgwyliadau o ran ymddygiad (Skuse a Matthew, 2015).

1.18 Unwaith rydyn ni'n dechrau bodloni'r anghenion sylfaenol hyn, mae'r Model Gwella o Drawma yn dweud bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn barod, ac yn agored i, feithrin perthynas o ymddiriedaeth gydag oedolion priodol. O ganlyniad, mae trydedd lefel y Model Gwella o Drawma yn rhoi pwyslais ar staff yn gweithio gyda phobl ifanc er mwyn meithrin perthynas adeiladol.

1.19 Mae pedwaredd lefel y Model Gwella o Drawma yn cynnig, unwaith mae perthynas waith gref wedi'i datblygu, yna mae pobl ifanc yn gallu dechrau ymgysylltu ag, a datgelu, achos o drawma cyfredol neu hanesyddol. Meddai Skuse a Matthew (2015):

*'Over time—sometimes a very protracted period—this yields opportunities to talk in more depth, to discuss pertinent issues that arise and to revisit difficult life experiences. It is not until young people have successfully negotiated the first two layers of the model* [first three layers in Ffigur 3] *that they feel safe enough, perhaps for the first time, to begin to think about and articulate what has happened to them in the past. The sorts of disclosures that typically emerge include complex bereavement, abuse, neglect, maltreatment, exploitation, incest and domestic violence.' (t22)*

1.20 Mae hyn yn galluogi staff i weithio'n sensitif a/neu gyfeirio at ymyriadau therapiwtig arbenigol lle bo'r angen, er mwyn helpu'r person ifanc i weithio'i ffordd drwy brofiadau a cholledion trawmatig.

1.21 Dadl Skuse a Matthew (2015) yw, oni bai bod pobl ifanc wedi cwblhau pedwar cam cyntaf y Model Gwella o Drawma, ni fyddant yn gallu deall eu sefyllfa bresennol yn llawn, eu hymddygiad nac yn gallu mynd i'r afael ag effaith neu oblygiadau eu troseddau. O'r herwydd, dim ond yng ngham 5 y gall staff gychwyn gweithio gyda phobl ifanc ar bynciau fel sgiliau meddwl goblygiadol, empathi a dulliau adfer.

1.22 Erbyn haen olaf ond un y Model Gwella o Drawma, mae pobl ifanc wedi datblygu ymdeimlad cynyddol o hunangred ac wedi derbyn eu galluoedd a'u potensial fwyfwy (Skuse a Matthew, 2015, t23). Er hynny, maen nhw'n dadlau bod pobl ifanc '*require a significant amount of support in the form of guided goal setting, support into education and a scaffolded approach to structuring free time and community living in order to maximise the chances of sustained success*' (t23).

1.23 Mae cam terfynol y Model Gwella o Drawma yn cydnabod bod y bobl ifanc hyn yn gallu penderfynu drostynt eu hunain, a byw bywydau annibynnol iach yn y gymuned gyda fawr ddim cymorth ychwanegol, os o gwbl.

1.24 Yn ôl tystiolaeth heb ei chyhoeddi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar y defnydd o'r Model Gwella o Drawma mewn cartrefi diogel i blant:

- Roedd asesiadau'n fwy tebygol o ystyried anghenion y plentyn dros y tymor hirach a'i 'siwrnai' debygol dros amser.
- Roedd mwy o ddealltwriaeth ymhlith ymarferwyr o sut mae anghenion plant yn gysylltiedig â'u lefel datblygiad a mwy o gydnabyddiaeth o'r angen i ddefnyddio mwy o gamau ataliol rhagweithiol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn (yn hytrach nag ymatebion adweithiol mewn argyfwng).
- Roedd mwy o bwyslais ar anghenion gwaelodol y plentyn ac nid dim ond ei ymddygiad presennol.
- Roedd dealltwriaeth well o bwysigrwydd staff yn mynd i'r afael ag anghenion y plentyn mewn modd cyson.
- Roedd o gymorth i ddarparu fframwaith cyffredin a ddefnyddiwyd gan amryw o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r plentyn.
- Roedd yn darparu fframwaith ar gyfer mesur cynnydd neu atchweliad.

1.25 Yn sgil y profiad hwn, cynigiodd Dr Tricia Skuse a Jonny Matthew y gellid defnyddio'r Model Gwella o Drawma o fewn Timau Troseddau Ieuenctid, ac fe gafodd ei ddatblygu fel y dull ECM. Roedd y dull ECM yn cyflwyno'r Model Gwella o Drawma i asesiadau, ymyriadau, cymorth staff ac adolygiadau.

*Rolau dynodedig er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r dull ECM fesul tipyn*

1.26 Sefydlwyd dwy rôl er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r ECM fesul tipyn: arweinydd prosiect (gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol) a seicolegydd clinigol.

1.27 Aeth yr arweinydd prosiect a'r seicolegydd clinigol ati i drosi'r Model Gwella o Drawma er mwyn i Dimau Troseddau Ieuenctid ei ddefnyddio, a chyfrannu at gynllunio'r dull ECM. Buont yn paratoi canllawiau ymarfer a hyfforddiant i staff Timau Troseddau Ieuenctid ac yn hwyluso'r hyfforddiant, gyda phwyslais ar ddeall materion ymlyniad, datblygiad plant a thrawma, a sut gallai'r rhain effeithio ar eu gweithrediad bob dydd.

1.28 Yn y camau cynnar, bu'r arweinydd prosiect yn gweithio'n agos gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid i'w hannog i gymryd rhan yn y treial a helpu i'w sefydlu. Unwaith roedd y treial ar waith, bu'r arweinydd prosiect yn darparu canllawiau i Dimau Troseddau Ieuenctid ar ba mor addas yw atgyfeiriadau posib, yn fetio'r achosion arfaethedig i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf, yn cysylltu â'r Timau wrth gynnal cyfarfodydd creu achos, yn cadeirio a chymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn, ac yn cynhyrchu genogramau a gwybodaeth gryno am achosion.

1.29 Bu’r arweinydd prosiect a’r seicolegydd clinigol yn gweithio gyda rheolwr achosion y Tîm Troseddau Ieuenctid gydol yr adeg yr oedd y person ifanc yn rhan o’r treial ECM, gan gynnig cyngor/cymorth parhaus a chymryd rhan mewn adolygiadau monitro’r cynnydd a chreu achos.

1.30 Y seicolegydd clinigol oedd yn gyfrifol am roi trosolwg clinigol i’r treial. Roedd hyn yn cynnwys arwain ac adolygu’r broses o greu achosion amlasiantaeth a darparu goruchwyliaeth glinigol i’r staff, a oedd yn cynnwys cyngor clinigol ar reoli achosion.

*Hyfforddiant i ymarferwyr a rheolwyr*

1.31 Roedd y dull ECM yn cynnwys hyfforddi ymarferwyr a rheolwyr o Dimau Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau eraill. Cynlluniwyd yr hyfforddiant i sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, y cwlwm rhwng rhiant a phlentyn, sut gall trawma a brofodd plentyn effeithio ar ddatblygiad y plentyn hwnnw, y Model Gwella o Drawma (theori, model, a sut y gellir ei ddefnyddio gan ymarferwyr) a phwysigrwydd goruchwyliaeth glinigol (YJB Cymru, 2015).

1.32 Darparwyd hyfforddiant gan yr arweinydd prosiect a’r seicolegydd clinigol, ac roedd yn cynnwys sesiynau i esbonio’r Model Gwella o Drawma, y dull ECM a’r egwyddorion sylfaenol; hyfforddiant diweddaru ar adegau penodol er mwyn helpu i sicrhau cywirdeb y rhaglen; ac unrhyw gyfraniadau arbenigol pellach oedd yn codi wrth i’r prosiect fynd rhagddo.

1.33 Cafodd yr hyfforddiant ei ategu gan ganllawiau ymarfer a ddarparodd wybodaeth gam wrth gam ar ddefnyddio’r dull ECM o fewn Timau Troseddau Ieuenctid.

*Meini prawf cymhwysedd*

1.34 Cafodd y meini prawf cymhwysedd canlynol eu llunio’n wreiddiol er mwyn penderfynu pwy fyddai’n cymryd rhan yn y dull ECM (YJB Cymru, 2015). Cawsant eu newid yn ystod y treial.

- Hanes o droseddu cyson yn y 12 mis blaenorol, h.y. person ifanc â phum achos o droseddu neu fwy yn y 12 mis cynt cael ei atgyfeirio i’r prosiect.
- ‘Prawf o gymhlethdodau’. Roedd hyn yn cynnwys: cofrestr amddiffyn plant a/neu gyfraniad gwasanaethau cymdeithasol eraill, statws Derbyn Gofal, camddefnyddio sylweddau, problemau emosiynol ac iechyd meddwl, nam ar yr ymennydd a/anableddau niwrolegol eraill, anawsterau dysgu a/neu addysgol, ac/neu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu.
- Gorchymyn statudol cyfredol gan Lys Ieuenctid neu Lys y Goron, h.y. wrth gael ei atgyfeirio i’r prosiect, rhaid bod o leiaf chwe mis o’r gorchymyn perthnasol yn weddill.

1.35 Y Timau Troseddau Ieuenctid oedd yn gyfrifol am nodi a chyflwyno achosion a all fod yn gymwys i gymryd rhan yn y treial ECM. Roedd cyngor gan yr arweinydd prosiect ar gael fel rhan o’r broses hon. Yna, cyflwynwyd atgyfeiriad ffurfiol i’r arweinydd prosiect a fyddai’n cadarnhau (gan ddefnyddio’r wybodaeth yn y dogfennau asesu) a oedd y person ifanc yn gymwys.

*Cydsyniad gwybodus*

1.36 Roedd angen i bobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr lle bo'n berthnasol, roi cydsyniad gwybodus cyn cymryd rhan yn y dull ECM.

*Creu achos*

1.37 Diben creu achos oedd dadansoddi gwybodaeth am y person ifanc, o'i enedigaeth i'r presennol, gyda'r nod o adnabod a deall y materion ymlyniad gwaelodol a/neu'r trawma heb eu datrys yn unol â'r Model Gwella o Drawma. Y nod wedyn oedd datblygu cynllun effeithiol a fyddai'n llywio gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid gyda'r person ifanc hwnnw gydol cyfnod y gorchymyn.

1.38 Er mwyn creu achos, roedd angen presenoldeb yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol o'r holl asiantaethau perthnasol oedd yn gyfarwydd â'r plentyn, neu roedd angen iddynt gyflwyno'r holl wybodaeth ysgrifenedig os na allent fod yn bresennol. Cafodd y broses ei hwyluso gan yr arweinydd prosiect a'r seicolegydd clinigol (aelod o dîm FACTS o fewn y treial).

1.39 Dyma'r camau perthnasol yn ôl y canllawiau (YJB Cymru a Llywodraeth Cymru, dim dyddiad).

- Byddai rheolwr achos y Tîm Troseddau Ieuenctid yn nodi'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol oedd yn gyfarwydd â'r plentyn ac yn eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod creu achos.
- Cyn y cyfarfod, byddai'r arweinydd prosiect yn defnyddio asesiadau a gynhyrchwyd gan reolwr achos y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn crynhoi'r holl wybodaeth hysbys am y person ifanc. Byddai'r genogram hwn (golwg darluniol o gysylltiadau teuluol y person ifanc) yn cael ei rannu rhwng y gweithwyr proffesiynol cyn i bawb fynychu'r cyfarfod creu achos.
- Yn y cyfarfod creu achos - wedi'i hwyluso gan y seicolegydd clinigol - byddai pawb yn trafod y genogram ac yn ei addasu gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol. Byddai amserlen fanwl o fywyd y person ifanc hyd yma yn cael ei greu hefyd. Cynlluniwyd hyn er mwyn sicrhau bod gan bob ymarferydd ddealltwriaeth dda o anawsterau'r person ifanc a'i ddatblygiad personol. Byddai digwyddiadau allweddol ym mywyd y plentyn yn cael eu cynnwys er mwyn helpu i ddeall pa ffactorau allweddol gyfrannodd at broblemau'r plentyn.
- Yna, byddai'r seicolegydd clinigol yn crynhoi'r drafodaeth trwy greu achos cychwynnol, h.y. 'stori' siwrnai'r person ifanc hyd yma, pam mae problemau'n bodoli a sut gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â phroses ddatblygiadol y person ifanc a dylanwadu ar ymddygiad cyfredol.
- Byddai hyn wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Model Gwella o Drawma cyn datblygu cyfres o argymhellion cymorth ac ymyrryd. Byddai'r rhain yn cael eu teilwra i anghenion datblygiadol y plentyn a'u 'trefnu' (yn unol â'r Model) er mwyn sicrhau'r ymgysylltiad a'r effaith mwyaf.

- Byddai’r seicolegydd yn ysgrifennu’r wybodaeth a’r argymhellion mewn adroddiad creu achos, a fyddai’n sail i’r cynllun ymyrryd wedyn.

1.40 Roedd y dull o greu achos yn cynnwys proses adolygu barhaus hefyd. Cynlluniwyd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod y cynllun ymyrryd (sy’n manylu ar y gwaith a’r cymorth i’w cyflawni gyda’r person ifanc) yn cyd-fynd â chasgliad y dull creu achos a’r Model Gwella o Drawma. Byddai hefyd yn caniatáu i ni fonitro’r cynnydd a diweddaru’r gwaith o greu achos pan ddaw gwybodaeth newydd i’r fei. Byddai amseriadau’r adolygiadau yn dibynnu ar anghenion penodol yr achos. Roedd disgwyl i’r holl achosion gael eu hadolygu ar y diwedd, er mwyn cytuno ar y camau nesaf ac unrhyw drefniadau pontio. Byddai adolygiadau creu achos yn cael eu hwyluso gan y seicolegydd clinigol a/neu’r arweinydd prosiect.

*Ymyriadau ac arferion sy’n cyfateb yn well i anghenion*

1.41 Yn dilyn y camau blaenorol, roedd y dull ECM yn rhagweld y byddai ymyriadau ac arferion (fel y manylwyd arnynt yn y cynlluniau ymyrryd neu'r cynlluniau cymorth) yn cyfateb yn well i anghenion y person ifanc a’i sefyllfa gyfredol ar hyd y Model Gwella o Drawma. Dyma rai o’r camau gweithredu a allai ddeillio o hyn: ymyriadau newydd; gwasanaethau cymorth ychwanegol neu amgen; ymyriadau tebyg ond wedi’u cyflwyno fesul cam/trefnu mewn ffordd wahanol; a phwyslais cliriach ar fynd i’r afael ag anghenion gwaelodol a meithrin perthynas waith effeithiol â’r person ifanc.

*Cofnodi achos parhaus*

1.42 Cafodd gwaith creu achosion a gweithgareddau parhaus eu cofnodi o fewn systemau rheoli achos electronig y Tîm Troseddau Ieuenctid. Dros gyfnod y treial, dechreuodd Timau Troseddau Ieuenctid ddefnyddio AssetPlus, adnodd asesu newydd wedi’i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gan gymryd lle’r system flaenorol (Asset). Roedd Safonau Cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei gwneud hi’n ofynnol i Dimau Troseddau Ieuenctid a’u partneriaid ddefnyddio AssetPlus (YJB, 2014a). Cafodd hyn ei weithredu ledled y tri safle prawf ym mis Tachwedd 2015, Mawrth 2016 a Mai 2016 (YJB, Hydref 2016).

*Goruchwyliaeth glinigol*

1.43 Cynigiwyd goruchwyliaeth glinigol i staff Tîm Troseddau Ieuenctid sy’n rheoli achosion dan y dull ECM. Darparwyd hyn gan y seicolegydd clinigol unwaith bob deufis (YJB Cymru a Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) ac roedd yn gyfle i’r staff: fyfyrio ar ac adolygu eu hymarfer ECM; trafod achosion ECM yn fanylach; trafod newid neu addasu eu hymarfer ECM; archwilio a phrosesu unrhyw effaith bersonol gweithio gyda’r grŵp hwn ar bobl ifanc; a nodi anghenion hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â’r dull ECM. Y bwriad oedd bod hyn yn cyd-fynd â’r oruchwyliaeth reoli sy’n canolbwyntio ar: adolygu perfformiad; gosod blaenoriaethau/amcanion yn unol ag amcanion ac anghenion gwasanaeth y sefydliad; nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (Y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2013).

1.44 Wrth i'r prosiect a'r achosion unigol fynd rhagddynt, fe wnaeth y seicolegydd clinigol barhau i gynnig cyngor a chymorth clinigol i reolwyr achos a rheolwyr gweithredol y Tîm Troseddau Ieuenctid fel bo'r angen.

**Y treial**

1.45 Darparwyd cyllid ar gyfer y treial gan Lywodraeth Cymru trwy YJB Cymru. Bu Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth yn llywodraethu'r treial, gan gyfarfod bob chwarter. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Timau Troseddau Ieuenctid oedd yn rhan o'r treial, Llywodraeth Cymru, YJB Cymru, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG a'r ystad ddiogeledd.

1.46 Bu oedi cyn lansio'r treial am y tro cyntaf, er mwyn cydymffurfio â rheolau Swyddfa'r Cabinet dros wario yn erbyn costau'r prosiect (YJB Casework Innovation Project: Highlight and Exception Report, Ionawr i Ebrill 2014). Cytunodd Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth ar ddyddiad diwygiedig sef 1 Mehefin 2014 i 31 Mai 2016. Roedd y treial yn rhagweld bod angen cyfnod o 12 mis i gyd, er mwyn caniatáu digon o amser i atgyfeirio'r holl bobl ifanc cymwys i dderbyn cymorth gan y prosiect.

1.47 Cafwyd cyfraniadau seicolegydd clinigol ar draws y dull ECM, gyda chyfraniad Timau Troseddau Ieuenctid i'r treial, gan FACTS. Defnyddiwyd proses dendro gystadleuol i benderfynu ar hyn.

1.48 Estynnodd YJB Cymru wahoddiad i holl Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru gymryd rhan yn nhreial y dull ECM. Yn wreiddiol, dewisodd Bwrdd y Rhaglen bedwar safle treial, h.y. Blaenau Gwent a Chaerffili; Sir Gâr; Sir y Fflint; a Wrecsam[2]. Cafodd safleoedd eu dewis gan ddefnyddio meini prawf dethol YJB Cymru er mwyn sicrhau bod Timau Troseddau Ieuenctid: â mas critigol o bobl ifanc â hanes o droseddu cyson; yn perfformio'n eithaf da fel bod posibilrwydd uwch bod partneriaeth waith dda eisoes mewn lle; ymrwymiad sylweddol i gymryd rhan yn y treial; a'u bod wedi dosbarthu'n ddaearyddol deg, gyda rhaniad gwledig/trefol priodol ar draws y safleoedd dethol.

1.49 Yn wreiddiol, roedd y treial yn amcangyfrif y byddai 36 o bobl ifanc yn rhan o'r prosiect ar draws y pedwar safle treial (Enhanced Case Management Project: Critical Review, Mai 2015). Roedd y sampl hon yn seiliedig ar yr adnoddau oedd ar gael ar gyfer y treial.

1.50 Tabl 1 yn dangos y niferoedd targed ar ffurf canran y Gorchmynion Cymunedol yn 2012-13 (pan gynlluniwyd y treial ECM). Mae'n dangos bod cyfran yr achosion ECM ar gyfartaledd o 16 y cant, gydag ystod o 13 y cant i 20 y cant.

[2] Mae'r Timau Troseddau Ieuenctid yn anhybys o hyn ymlaen.

**Tabl 1: Nifer targed y bobl ifanc wedi'u mynegi fel canran y Gorchmynion Cymunedol**

| Timau Troseddau Ieuenctid | Nifer y Gorchmynion Cymunedol (2012-13)[3] | Nifer targed y bobl ifanc | Nifer targed yr achosion fel canran o'r Gorchmynion Cymunedol |
|---|---|---|---|
| **A** | 83 | 11 | 13% |
| **B** | 54 | 11 | 20% |
| **C** | 31 | 5 | 16% |
| **D** | 57 | 9 | 16% |
| **Cyfanswm** | **225** | **36** | **16%** |

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/collections/youth-justice-statistics

1.51 Mewn perthynas â'r gwaith proffilio a wnaeth YJB Cymru ar bobl ifanc mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid â chofnod o 25 neu fwy o droseddau (gweler paragraff 1.7), mae Tabl 2 yn dangos dosbarthiad y troseddwyr cyson ledled y Timau Troseddau Ieuenctid sy'n rhan o'r treial. Mae'n dangos mai troseddwyr cyson, ar gyfartaledd, oedd 4.6 y cant o'r holl lwyth achosion ar draws y pedwar Tîm Troseddau Ieuenctid a fu'n rhan o'r treial yn wreiddiol.

**Tabl 2: Nifer y bobl ifanc â hanes cyson o droseddu**

| Timau Troseddau Ieuenctid | Pobl ifanc â 25+ o droseddau | Cyfanswm llwyth achosion | Troseddwyr cyson fel canran o'r llwyth achosion |
|---|---|---|---|
| **A** | 23 | 675 | 3.4% |
| **B** | 24 | 484 | 5.0% |
| **C** | 11 | 356 | 3.1% |
| **D** | 31 | 399 | 7.8% |
| **Cyfanswm** | **89** | **1,914** | **4.6%** |

**Ynglŷn â'r gwerthusiad**

1.52 Cafodd cwmni Cordis Bright ei gomisiynu ym mis Ebrill 2015 gan YJB Cymru a Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r treial.

---

[3] Is-set o'r ffigur hwn fyddai nifer y bobl ifanc sy'n gymwys i gymryd rhan yn y treial, a byddai'n cynnwys pobl ifanc eraill nad ydynt yn rhan o'r ffigur hwn. Dim ond ffigur dangosol ydyw.

1.53 Cylch gorchwyl/diben y gwerthusiad (Llywodraeth Cymru, 2015b) oedd:

- Gwerthuso'r broses o roi'r prosiect ar waith, gyda'r nod o asesu oedd y dull ECM wedi'i weithredu'n effeithiol ac mewn modd a oedd yn driw i'r model.
- Penderfynu pa elfennau a arweiniodd at bobl ifanc yn cymryd rhan yn y rhaglen a pharhau i ymgysylltu, yn wahanol i'r elfennau ar arweiniodd at beidio ag ymgysylltu neu dynnu'n ôl yn gynnar.
- Canfod a gafwyd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl ifanc unigol; gan gynnwys camu ymlaen yn y camau  Model Gwella o Drawma ac ymgysylltu'n gadarnhaol â chymdeithas.
- Darparu argymhellion o ran: (1) a ddylid gweithredu'r ECM ymhellach; (2) y ffordd orau o fonitro a gwerthuso gweithredu i'r dyfodol yn nhermau prosesau a chanlyniadau canolradd; ac (3) a oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r dull, er mwyn llywio penderfyniadau ar weithredu'r prosiect yn y dyfodol.

**Trefn yr adroddiad**

1.54 Mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn darparu gwybodaeth am y fethodoleg
- Mae Adran 3 yn manylu ar y canfyddiadau
- Mae Adran 4 yn trin a thrafod y canfyddiadau
- Mae Adran 5 yn cyflwyno'r prif gasgliadau.

1.55 Mae'r Atodiadau ar gael fel dogfennau ar wahân i'r prif adroddiad hwn. Mae Atodiad 1 yn darparu copïau o'r deunyddiau ymchwil. Mae Atodiad 2 yn darparu astudiaethau achos am bobl ifanc oedd yn rhan o'r treial.

## 2. Methodoleg

**Trosolwg o'r fethodoleg**

2.1 Cafodd dull methodoleg cyffredinol y gwerthusiad hwn ei lywio gan:

- Y Model Rhesymeg ar gyfer y dull ECM, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ac YJB Cymru (gweler Atodiad 1)
- y fanyleb ymchwil wreiddiol a ddrafftiwyd gan YJB Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thrafodaethau gyda grŵp llywio'r gwerthusiad[4]
- ymgynghoriadau ag amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol a allai gael eu heffeithio/dylanwadu gan y treial
- y ffaith mai nifer cymharol fach o Dimau Troseddau Ieuenctid, ymarferwyr a phobl ifanc fyddai'n cymryd rhan yn y treial.

2.2 Mae Tabl 3 yn darparu trosolwg o'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn, a nifer yr ymatebion a ddaeth i law. Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar y tri Thîm Troseddau Ieuenctid a gwblhaodd y treial yn llawn (fe wnaeth Tîm D dynnu allan yn gynnar yn y treial). Hefyd, fe wnaeth YJB Cymru ddarparu dogfennau a data monitro prosiect i'r tîm gwerthuso. Cafodd data a dogfennau eu dewis a'u dethol gan YJB Cymru yn sgil y cwestiynau ymchwil yn y Model Rhesymeg a'r fanyleb. Roedd protocol rhannu data ar waith gyda YJB Cymru er mwyn helpu i lywio'r broses hon.

**Amserlenni**

2.3 Dechreuodd y gwaith maes ym mis Tachwedd 2015 a gorffennodd ym mis Tachwedd 2016. Cynlluniwyd hyn er mwyn adlewyrchu'r amserlenni ar gyfer rhan graidd y treial 5.

**Samplu**

2.4 Cytunwyd ar sampl y gwaith maes gyda grŵp llywio'r gwerthusiad. Dyma'r meini prawf a ddefnyddiwyd:

- Staff Tîm Troseddau Ieuenctid: yn gysylltiedig â'r treial mewn rhyw ffordd, yn ddelfrydol gyda phrofiad uniongyrchol o weithio gyda pherson ifanc gan ddefnyddio dull ECM; wedi'i enwebu gan reolwr y Tîm Troseddau Ieuenctid; ac yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad.
- Arweinydd prosiect a seicolegydd clinigol FACTS: yn gysylltiedig â'r treial; ac yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad.

[4] Yn cynnwys cynrychiolwyr o YJB Cymru, Llywodraeth Cymru a'r gwerthuswr.

[5] Yn unol â'r protocolau, ni chynhaliwyd gwaith maes yn ystod cyfnod yr etholiad (h.y. 6 Ebrill - 11 Mai 2017).

- Pobl ifanc: yn gysylltiedig â'r treial; yn barod i fod yn rhan o'r ymchwil (naill ai'r holl elfennau neu ran ohonynt); wedi cwblhau/gadael y treial yn ystod cyfnod y gwaith maes; ac nad oedd eu rhieni/gofalwyr (lle bo'n briodol) yn gwrthwynebu iddynt gymryd rhan. Cafodd pobl ifanc eu cynnwys yn nhrefn y cais i'r gwerthusiad, hyd at 10 o bobl ifanc ar y mwyaf. Yr unig eithriad i hyn oedd yr holiadur, lle nad oedd unrhyw uchafswm o ran niferoedd.

Teuluoedd: rhiant/gofalwr y person ifanc oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth achos; ac yn barod i fod yn rhan o'r gwerthusiad.

**Tabl 3: Trosolwg o'r fethodoleg (dulliau a ddefnyddiwyd a'r ymatebion a gafwyd)**

| Dull | Disgrifiad | Ymatebion | |
|---|---|---|---|
| | | Tachwedd 2015 i Ionawr 2016 | Chwefror 2016 i Tachwedd 2016 |
| **Cyfweliadau â staff Timau Troseddau Ieuenctid** | Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr a rheolwyr y Timau Troseddau Ieuenctid sy'n gysylltiedig â'r treial. Cawsant eu cynllunio i archwilio profiadau wrth weithredu'r treial. Roedd y dull yn cynnwys cynnal cyfweliadau ar ddau bwynt, h.y. hanner ffordd drwy'r treial ac ar ddiwedd y treial. Roedd hyn yn galluogi'r gwerthusiad i gynnwys elfennau ffurfiannol a chyfunol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau yn Atodiad 1. Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb, a chyfran fechan dros y ffôn, yn dibynnu a oedd yr ymatebwyr ar gael yn ystod ymweliadau safle wedi'u trefnu. | 18<br><br>Timau Troseddau Ieuenctid A: 9<br>Timau Troseddau Ieuenctid B: 4<br><br>Timau Troseddau Ieuenctid C: 5 | 17<br><br>Timau Troseddau Ieuenctid A: 8<br>Timau Troseddau Ieuenctid B: 4<br>Timau Troseddau Ieuenctid C: 5 |
| **Cyfweliadau ag arweinydd y prosiect a seicolegydd clinigol FACTS** | Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ag aelodau o dîm FACTS a ddarparodd gyfraniad clinigol i'r Timau Troseddau Ieuenctid a gymerodd ran yn y prosiect ac arweinydd y prosiect. Roedd y cyfweliadau hyn yn dilyn yr un fformat â rhai'r Timau Troseddau Ieuenctid, h.y. fe'u cynhaliwyd ar ddau bwynt mewn amser, gan ystyried gweithredu'r treial, ac yn cynnal elfennau ffurfiannol a chyfunol. | 3<br><br>FACTS: 1<br>YJB: 2 | 2<br><br>FACTS: 1<br><br>YJB: 1 |
| **Cyfweliadau gyda phobl ifanc** | Roedd y cyfweliadau hyn yn archwilio profiadau'r person ifanc o'r dull ECM ac ymarfer cysylltiedig, sut oedd yn wahanol i'w profiad blaenorol o ymgysylltu â'r Tîm Troseddau Ieuenctid, pa newidiadau a gyflawnwyd a sut oedd y dull ECM wedi (neu ddim wedi) ategu hyn. Fe'u cynhaliwyd | 0 | 4<br><br>Timau Troseddau Ieuenctid A: 1<br>Timau Troseddau Ieuenctid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wyneb yn wyneb, heblaw am un person ifanc a holwyd dros y ffôn tra'r oedd yn cael ei gadw yn yr ystad ddiogeledd. O gofio maint bychan y sampl, ac er mwyn gwarchod eu hunaniaeth, ni ddarparwyd proffil o'r ymatebwyr. | | B: 0<br>Timau Troseddau Ieuenctid C: 3 |
| **Cyfweliadau â rhieni/gofalwyr** | Bwriad y cyfweliadau hyn oedd archwilio barn rhieni / gofalwyr am gyfraniad eu plant i'r dull ECM ac, yn enwedig, pa newidiadau y llwyddwyd i'w cyflawni ar gyfer eu plant. Er hynny, ni chytunodd unrhyw riant/gofalwr i gymryd rhan yn y gwerthusiad. | 0 | 0 |
| **Adolygu'r broses o greu achosion a ffurfio achosion** | Cafodd adroddiadau creu ac adolygu achosion, yn ogystal â dogfennau achos ehangach, eu dadansoddi er mwyn deall i ba raddau yr oedd: (a) y dull ECM yn driw i'r ymarfer; (b) dulliau o gofnodi rheoli achosion wedi gwella; a (c) bod canlyniadau'r person ifanc wedi gwella. Lle rhoddwyd caniatâd, cafodd dogfennau achosion eu hadolygu ar gyfer y bobl ifanc hynny a gymerodd ran yn y cyfweliad. Cynhaliwyd adolygiadau o ffeiliau achos ychwanegol er mwyn cynyddu'r sampl. O gofio maint bychan y sampl, ac er mwyn gwarchod eu hunaniaeth, ni ddarparwyd proffil o'r ymatebwyr. | 0 | 8<br>Timau Troseddau Ieuenctid A: 3<br>Timau Troseddau Ieuenctid B: 2<br>Timau Troseddau Ieuenctid C: 3 |
| Holiaduron, yn seiliedig ar Viewpoint, wedi'u cwblhau gan bobl ifanc | Holiadur ar-lein a ddefnyddir gan nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid er mwyn helpu i ddeall profiadau pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r Timau ac i ba raddau mae pethau wedi gwella, yw Viewpoint[6]. Mae'n cael ei lenwi gan berson ifanc sydd ar fin gorffen ei gysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid fel arfer. Holiadur anhysbys sy'n cael ei gwblhau ar-lein ydyw. Ar gyfer y gwerthusiad hwn, datblygwyd fersiwn o | 2 Timau Troseddau Ieuenctid A: 0 Timau Troseddau Ieuenctid B: 2 Timau Troseddau Ieuenctid C: 0 | 4 Timau Troseddau Ieuenctid A: 2 Timau Troseddau Ieuenctid B: 1 Timau Troseddau Ieuenctid C: 1 |

[6] Rhagor o wybodaeth yn http://www.vptorg.co.uk/

| | | | |
|---|---|---|---|
| | holiadur Viewpoint a oedd yn driw i'r holiadur Viewpoint gwreiddiol ond a oedd hefyd yn cynnwys cwestiynau sy'n archwilio materion penodol yn gysylltiedig â'r dull ECM. Gofynnodd y Timau Troseddau Ieuenctid i bob person ifanc oedd yn rhan o'r treial i lenwi holiadur tua diwedd eu cyfnod gyda'r Tîm. Anfonwyd data'n uniongyrchol i'r tîm gwerthuso. O gofio maint bychan y sampl, ac er mwyn gwarchod eu hunaniaeth, ni ddarparwyd proffil o'r ymatebwyr. | | |
| **Data'r Pecyn Cymorth Aildroseddu** | Datblygwyd y Pecyn Cymorth Aildroseddu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn helpu'r Timau Troseddau Ieuenctid i archwilio patrymau aildroseddu dros gyfnod o 12 mis. Darparwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Cymorth Aildroseddu i'r Timau oedd yn cymryd rhan yn y treial. Roedd y fersiwn hon yn cynnwys gwybodaeth am bethau fel a oedd y person ifanc yn gysylltiedig â'r treial, ac i ba raddau yr oedd yn rhan o'r treial. Cwblhawyd y Pecyn Cymorth gan y Timau Troseddau Ieuenctid ac anfonwyd data ymlaen i'r tîm gwerthuso ar ddiwedd y treial. | Amh. | 21 Timau Troseddau Ieuenctid A: 4 Timau Troseddau Ieuenctid B: 12 Timau Troseddau Ieuenctid C: 5 |

## Deunyddiau ymchwil

2.5 Cafodd deunyddiau ymchwil eu datblygu yn seiliedig ar y Model Rhesymeg ar gyfer y dull ECM (gweler Atodiad 1) a'r cwestiynau ymchwil yn y fanyleb.

2.6 Lle bo modd, cafodd dulliau a oedd yn bodoli'n barod eu defnyddio neu eu haddasu er mwyn lleihau'r baich casglu data ar Dimau Troseddau Ieuenctid. Er enghraifft, cafodd data am aildroseddu eu casglu trwy fersiwn wedi'i haddasu o'r Pecyn Cymorth Aildroseddu (gweler Tabl 3); ac roedd yr holiadur a gwblhawyd gan bobl ifanc yn seiliedig ar yr holiadur Viewpoint yn ogystal ag agweddau ar yr holiadur 'Strength and Difficulties' (Youth in Mind, dim dyddiad) er mwyn cipio rhagor o wybodaeth am natur y newidiadau ym mywyd y person ifanc. Mae copïau o'r deunyddiau ymchwil ar gael yn Atodiad 1.

## Dadansoddi'r data yn yr adroddiad hwn

2.7 Defnyddiwyd dull seiliedig ar fatrics i ddadansoddi data ansoddol. Roedd yn cynnwys mapio ymatebion gan rai a holwyd yn erbyn arweiniad/Model Rhesymeg y cyfweliad. Yna, cafodd themâu allweddol, elfennau cyffredin a thebyg mewn atebion eu nodi, e.e. i ba raddau y cafwyd atebion tebyg neu wahanol i bob cwestiwn. Hefyd, roedd y matrics yn archwilio unrhyw wahaniaethau mewn atebion rhwng rolau (e.e. ymarferwyr o gymharu â rheolwyr) a rhwng timau.

2.8 Darparwyd data ansoddol yn y tair prif ffynhonnell: data Pecyn Cymorth Aildroseddu a ddarparwyd gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid; taenlen monitro ECM gan YJB Cymru; a holiaduron Viewpoint wedi'u cwblhau gan bobl ifanc oedd yn rhan o'r treial. Ni chafodd y data a ddarparwyd eu dilysu gan y tîm gwerthuso. Defnyddiwyd Excel i ddadansoddi'r data ansoddol.

2.9 Er mwyn dangos ymhellach brofiadau'r bobl ifanc fu'n rhan o'r treial (gweler Atodiad 2), mae astudiaethau achos wedi'u cynnwys. Roedden nhw'n seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd o gyfweliadau â phobl ifanc, cyfweliadau staff a dadansoddiad o ffeiliau achosion (gweler Atodiad 2).

## Moeseg

2.10 Defnyddiwyd amryw o ystyriaethau moesegol i lywio'r fethodoleg yn ogystal â chynnwys y deunyddiau ymchwil. Roedd hyn yn arbennig o wir wrth gynnwys pobl ifanc a'u teuluoedd. Ceir amlinelliad ohonynt isod.

- **Cydsyniad gwybodus gan bobl ifanc a rhieni/gofalwyr:** sicrhaodd staff Timau Troseddau Ieuenctid gydsyniad gwybodus gan bobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Sicrhawyd cydsyniad ychwanegol i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Gofynnwyd i bobl ifanc oedd yn rhan o'r treial i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y gwerthusiad (h.y. cyfweliadau, holiadur, adolygiad o ffeil achosion) ac roedden nhw'n gallu optio allan o ambell/pob elfen. Hefyd, gofynnwyd i'r rhieni/gofalwyr a oedden nhw'n caniatáu i'w plentyn gymryd rhan yn y gwerthusiad. Gallai rhieni/gofalwyr optio allan o ambell/pob elfen. Cafodd deunyddiau cydsyniad gwybodus eu gweinyddu gan, a'u cadw gan, staff Timau Troseddau Ieuenctid.

Mae copïau o'r deunyddiau cydsyniad gwybodus, sy'n seiliedig ar ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (World Health Organization, 2016), wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

- **Cydsyniad gwybodus rhanddeiliaid eraill:** Gofynnwyd i staff Timau Troseddau Ieuenctid, aelodau o dimau FACTS ac arweinydd prosiect y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gymryd rhan yn y gwerthusiad a chawsant wybodaeth am y gwerthusiad ei hun. Gallai'r rhanddeiliaid hyn ddewis cymryd rhan yn y gwerthusiad neu beidio. Roedden nhw hefyd yn gallu dewis pa gwestiynau i'w hateb, ac yn rhydd i adael unrhyw bryd.

- **Cyfrinachedd:** cafodd holl gyfranwyr y gwerthusiad sicrwydd y byddai eu hymatebion yn parhau'n gyfrinachol (h.y. dim ond yn cael eu rhannu gyda'r tîm gwerthuso) a ddim yn cael eu priodoli iddynt. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu siarad yn onest ac yn agored am eu profiadau gyda'r treial.

- **Datgeliad:** o gofio natur y gwerthusiad, roedd posibilrwydd y gallai'r cyfranogwyr fod wedi datgelu gwybodaeth bod eu diogelwch nhw neu rywun arall mewn peryg. Yn sgil hyn, roedd deunyddiau cydsyniad gwybodus yn nodi'n glir y byddai disgwyl i'r tîm gwerthuso ddatgelu gwybodaeth o'r fath i'r awdurdodau perthnasol e.e. timau amddiffyn plant os oedd person ifanc mewn peryg, neu'r heddlu os oedd pryderon am berygl posib o droseddu neu risg i ddiogelwch y cyhoedd.

- **Anhysbys:** cafodd holiaduron eu cwblhau'n anhysbys ac yn gyfrinachol gan bobl ifanc. Roedd hyn yn helpu i sicrhau y gallai pobl ifanc sôn am eu profiadau gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid a'r treial yn agored a gonest. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r dull arferol o gwblhau holiaduron Viewpoint.

**Cyfyngiadau'r gwerthusiad**

2.11 Roedd pedwar prif gyfyngiad i'r gwerthusiad sy'n effeithio ar natur y canfyddiadau. Mae'r manylion isod.

- **Rhagfarn ar sail ymateb.** Roedd y dull samplu yn cynnwys elfen o hunanddewis, h.y. pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a'r staff yn dewis a oeddent am gymryd rhan yn y treial ac, ar wahân, yn y gwerthusiad. Roedd risg, felly, y byddai canlyniadau'r gwerthusiad wedi'u heffeithio gan y ffaith y gallai'r ymatebwyr fod â rheswm neu gymhelliant penodol dros gymryd rhan yn y treial a'r gwerthusiad (Crow a Semmens, 2006). Mae angen i'r fethodoleg fynd i'r afael â hyn trwy ddefnyddio dulliau cymysg. Ond mae'r risg yn parhau o hyd, yn enwedig gan fod maint y sampl yn weddol fach.

- **Sampl o Dimau Troseddau Ieuenctid.** Roedd y fethodoleg yn cynnwys tri Thîm Troseddau Ieuenctid, h.y. rhai oedd yn rhan o'r treial ers Tachwedd 2015. Fe dynnodd pedwerydd Tîm allan o'r treial yn gynnar (gweler yr adran Canfyddiadau isod). Nid oedd y gwerthusiad yn cynnwys archwiliad o hyn neu p'un ai oedd agweddau ar y dull ECM wedi cyfrannu at adael y treial. Gallai hyn olygu bod y gwerthusiad wedi dod i gasgliad hynod gadarnhaol am hyfywedd rhoi'r treial ar waith.

- **Diffiniad o 'weithredu llwyddiannus'.** Rhan o bwrpas y treial (a'r gwerthusiad yn ei dro) oedd helpu i ddeall sut byddai'r dull ECM yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, ac a gyflawnwyd hynny. O'r herwydd, yn wahanol i rai gwerthusiadau, nid oedd y gwaith ymchwil yn seiliedig ar set o dargedau mesuradwy y cytunwyd arnynt ymlaen llaw er mwyn mesur cynnydd, e.e. gwelliannau disgwyliedig yn lefelau ymgysylltu pobl ifanc, graddfa a natur y gwelliannau o ran canlyniadau i bobl ifanc, a'r lleihad disgwyliedig mewn achosion o aildroseddu. Felly, os byddai'r treial yn dod i gasgliad bod y dull ECM yn debygol o fod yn ymarferol/hyfyw, disgwylir y byddai angen cynnal prosiect peilot mwy ffurfiol gyda thargedau mesuradwy.

- **Priodoli.** Ni chynlluniwyd y gwerthusiad i asesu a oedd modd priodoli unrhyw ganlyniadau gwell i bobl ifanc fu'n rhan o'r treial, yn uniongyrchol i'r dull ECM.

## 3. Canfyddiadau

### Cyflwyniad

3.1 Mae'r adran hon wedi'i threfnu yn ôl y themâu allweddol a nodwyd yn y canllaw cyfweld a'r Model Rhesymeg (gweler Atodiad 1), h.y.:

- diben ECM
- gweithredu
- ymgysylltiad pobl ifanc
- newidiadau mewn ymarfer
- newidiadau mewn rheoli
- gwelliannau sydd wedi'u cyflawni gan bobl ifanc
- safbwyntiau ar gyflwyno'n ehangach yn y dyfodol.

### Diben ECM

*Roedd staff Timau Troseddau Ieuenctid a gymerodd ran yn y treial yn cytuno bod angen dulliau newydd o weithio gyda'r grŵp targed o bobl ifanc*

3.2 Roedd y staff Timau Troseddau Ieuenctid i gyd yn cytuno bod angen treialu dulliau newydd o weithio gyda phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ac sydd ag anghenion cymhleth. Credent nad oedd ymarfer 'rheolaidd' yn creu lefel y newid sydd ei angen i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, lleihau aildroseddu, neu amddiffyn diogelwch y cyhoedd. Roedd diffygion yr ymarfer cyfredol a gafodd eu crybwyll yn ystod cyfweliadau yn cynnwys bod cymorth yn aml yn canolbwyntio gormod ar brosesau (e.e. cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol a gweithredu ymyriadau oddi ar y silff) ac nad oedd yn rhoi digon o amser i feithrin perthynas gyda phobl ifanc a mynd i'r afael â'u problemau gwaelodol.

Dywedodd arweinydd y prosiect a seicolegydd clinigol FACTS fod ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid ar y cyfan yn croesawu'r dull ECM ac yn agored iddo.

*Roedd lefel uchel o ddealltwriaeth gyffredin o'r dull ECM*

3.3 Roedd lefel uchel o ddealltwriaeth gyffredin ymhlith staff Timau Troseddau Ieuenctid am y dull ECM.

- **Amcanion y dull ECM.** Roedd yr holl staff Timau Troseddau Ieuenctid yn gallu mynegi amcanion y dull ECM a'r treial yn glir. Er enghraifft, pwysleisiodd staff Timau Troseddau Ieuenctid yr amcanion o leihau aildroseddu ymhlith y grŵp targed; gwella cyfraddau cydymffurfio a lleihau cyfraddau tramgwyddo; a chael mwy o effaith gadarnhaol, a hynny'n gyflymach, ar fywydau pobl ifanc.

- **Sail ddamcaniaethol gyffredinol y TRM a'r dull ECM.** Dywedodd mwyafrif y staff Timau Troseddau Ieuenctid fod ganddynt ddealltwriaeth dda o sail ddamcaniaethol y TRM. Cafodd y 'triongl' sy'n cydweddu cyflwyniad/ymddygiad gydag angen gwaelodol a haenau ymyrraeth ei grybwyll yn gyson fel agwedd gadarnhaol a defnyddiol ar y dull (gweler Ffigur 3).

- **Strwythur a chynnwys y dull ECM.** Roedd agweddau allweddol ar y dull a gafodd eu crybwyll yn gyson gan staff Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys rôl creu achosion; pwysigrwydd deall y trawma mae'r person ifanc wedi'i wynebu neu a wyneba ar hyn o bryd; yr angen i ddatblygu ac amseru ymyriadau i ddiwallu anghenion penodol pob person ifanc (h.y. dilyniant); pwysigrwydd gwaith amlasiantaeth a meithrin arbenigedd seicoleg glinigol allanol ac annibynnol a chael mynediad i'r arbenigedd hwnnw.

- **Meini prawf cymhwysedd.** Roedd pob aelod staff o'r Timau Troseddau Ieuenctid yn ymwybodol o'r meini prawf cymhwysedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y treial, h.y. hanes o droseddu cyson; dedfryd/gorchymyn o hyd priodol; a phrofiad o drawma blaenorol a/neu anghenion cymhleth arall.

- **Rolau perthnasol gwahanol randdeiliaid.** Dywedodd mwyafrif staff y Timau Troseddau Ieuenctid fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl, a sut mae cyfrannu, mewn achos a oedd yn cael ei reoli drwy'r dull ECM. Roedd hyder yn eu dealltwriaeth o'u rôl ar ei gryfaf ymysg y rhai a oedd wedi mynychu'r hyfforddiant.

3.4 Roedd ymwybyddiaeth o nodweddion unigryw'r dull ECM yn amrywio ymhlith y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y treial. Yn ystod y cyfweliadau, roedd pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd mynegi nodweddion allweddol y dull ECM neu'r treial.

**Gweithredu**

*Cymysg fu'r llwyddiant o ran cynnwys Timau Troseddau Ieuenctid yn y treial*

3.5 Mynegodd llawer o'r Timau Troseddau Ieuenctid ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y treial i gychwyn, gyda 10 yn cyflwyno mynegiant o ddiddordeb (YJB Cymru, dim dyddiad). Cytunodd

Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth y dylai pedwar Timau Troseddau Ieuenctid gymryd rhan yn y treial, sef Blaenau Gwent a Chaerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, a Wrecsam. Yn 2015, penderfynodd un Tîm Troseddau Ieuenctid dynnu'n ôl o'r treial oherwydd materion adnoddau a chapasiti ac ni aethpwyd ati i gynnwys Tîm Troseddau Ieuenctid arall yn ei le (YJB Casework Innovation Project Highlight and Exception Report, mis Mehefin i fis Medi 2015).

*Cafodd amserlenni'r treial eu hymestyn sawl gwaith*

3.6 Cafodd lansiad gwreiddiol y treial ei ohirio tan fis Mehefin 2014 er mwyn cydymffurfio â gofynion Swyddfa'r Cabinet. Newidiwyd y dyddiad gorffen i fis Mai 2016 hefyd. Roedd y YJB Casework Innovation Project Highlight and Exception Report (Chwefror 2015) yn nodi oedi pellach gyda'r prosiect oherwydd: oedi cyn bod un Tîm Troseddau Ieuenctid yn gallu cymryd rhan yn y treial; problemau o ran cyflenwi offer angenrheidiol i'r seicolegydd clinigol; a heriau mewn perthynas ag ôl-lenwi'r swydd seicolegydd clinigol er mwyn gallu cymryd rhan yn y treial.

3.7 Roedd yr Highlight and Exception Report (mis Mehefin i fis Medi 2015) yn nodi effaith barhaus yr oedi uchod ynghyd ag effaith un Tîm Troseddau Ieuenctid yn tynnu'n ôl, a llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl i'r treial. Yn sgil hyn, cytuno Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth i ymestyn y cyfnod atgyfeirio ymhellach i fis Hydref 2015 yn ogystal â newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd.

3.8 Yn sgil y newidiadau hyn, cafodd cyfnod y treial ei ymestyn i fis Tachwedd 2016. Roedd hyn yn golygu bod pob person ifanc yn gallu cael cyfnod o 12 mis o waith dilynol ar ôl ymestyn y cyfnod atgyfeirio (Enhanced case management project extension, Ebrill 2016). Roedd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn dangos cefnogaeth ar gyfer y newid yn y meini prawf cymhwysedd a'r estyniadau yn sgil hynny i amserlenni'r treial.

*Roedd angen newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd er mwyn helpu i gyrraedd y targed o ran nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y treial*

3.9 O ganlyniad i un Tîm Troseddau Ieuenctid yn tynnu'n ôl o'r treial, gostyngodd nifer y bobl ifanc yr oedd disgwyl iddynt fod yn rhan o'r treial o 36 i 27.

3.10 Ym mis Mai 2015, wyth o bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y treial, o gymharu â tharged o 20 ar gyfer y flwyddyn a tharged o 27 ar gyfer y treial yn gyffredinol. Rhoddir dadansoddiad fesul Tîm Troseddau Ieuenctid yn Nhabl 4. Mae hyn yn dangos bod pob un o'r tri Thîm Troseddau Ieuenctid yn ei chael hi'n anodd recriwtio'r nifer disgwyliedig o bobl ifanc i'r treial.

**Tabl 4: Nifer y bobl ifanc a recriwtiwyd i’r treial ym mis Mai 2015**

| Timau Troseddau Ieuenctid | Targed hyd at fis Gorffennaf 2015 | Gwirioneddol ym Mai 2015 | Targed ar gyfer y treial yn gyffredinol |
|---|---|---|---|
| A | 8 | 2 | 11 |
| B | 8 | 3 | 11 |
| C | 4 | 3 | 5 |
| Cyfanswm | **20** | **8** | **27** |

Ffynhonnell: Enhanced Case Management Project: Critical Review (Mai 2015). Mae ffigurau wedi’u talfyrru.

3.11 Nododd Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth ym mis Mai 2015 mai’r rheswm am y diffyg hwn oedd bod llai o bobl ifanc nag y rhagwelwyd yn flaenorol yn bodloni’r meini prawf yn llawn, yn enwedig o ran hyd dedfrydau. Cadarnhawyd hyn ymhellach yn ystod cyfweliadau, gydag ymatebwyr yn sôn am effaith Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae’r Ddeddf yn rhoi mwy o hyblygrwydd i lysoedd o ran y gorchmynion y gellir eu dyfarnu dan unrhyw amgylchiadau penodol, e.e. rhyddhad amodol os yw person ifanc yn pledio’n euog i drosedd gyntaf; defnyddio Gorchymyn Atgyfeirio fwy nag unwaith; a mwy o hyblygrwydd o ran hyd a chynnwys Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid (Hart, 2012). O ganlyniad, roedd nifer llai o bobl ifanc yn destun gorchmynion llys ac roedd hyn wedyn yn cynyddu’r amser y gallai pobl ifanc ddatblygu hanes o droseddu.

3.12 Yn sgil y profiadau hyn, fe wnaeth Bwrdd y Rhaglen Anghenion Cymhleth ym mis Mai 2015 ddiwygio’r meini prawf ar gyfer cynnwys pobl ifanc yn y treial, yn cynnwys:

- ymestyn yr amserlen ar gyfer cronni pump neu fwy o droseddau o 12 i 24 mis; a
- gallai hyd yn ddedfryd fod yn llai na chwe mis cyhyd â bod y bobl ifanc a’u teuluoedd yn cytuno ar gyfnod gwirfoddol o waith i wneud yr amser i fyny i gyfnod o chwe mis.

3.13 Mae Tabl 5 yn dangos y lefelau recriwtio i’r treial terfynol ar ôl ymestyn amserlenni a diwygio meini prawf cymhwysedd. Mae’n dangos bod y niferoedd wedi bodloni neu ragori ar y targed mewn dau o’r tri Thîm Troseddau Ieuenctid (h.y. Timau Troseddau Ieuenctid B a C). Ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid A, roedd y niferoedd yn is na’r targed gwreiddiol, h.y. pedwar person ifanc o gymharu â tharged o 11. At ei gilydd, roedd hyn yn golygu bod cyfanswm y bobl ifanc a gymerodd ran yn y treial yn is na’r targed diwygiedig, h.y. 21 o gymharu â tharged o 27.

**Tabl 5: Nifer y bobl ifanc a gafodd eu recriwtio gan y treial erbyn Hydref 2016**

| Timau Troseddau Ieuenctid | Targed | Gwirioneddol | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| A | 11 | 4 | -7 |
| B | 11 | 12 | +1 |
| C | 5 | 5 | 0 |
| Cyfanswm | **27** | **21** | **-6** |

Ffynhonnell: Cofnod achos cyfeirio cyflym, YJB Cymru

3.14 Roedd gan bob aelod staff ddealltwriaeth dda o'r meini prawf cymhwysedd (gwreiddiol a diwygiedig). Cadarnhawyd hyn gan arweinydd y prosiect, a dynnodd sylw at y ffaith fod pob atgyfeiriad gan Dimau Troseddau Ieuenctid wedi'u derbyn. Roedd yr holl staff Timau Troseddau Ieuenctid, y seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect yn cytuno mai'r newid yn y meini prawf oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn y niferoedd a recriwtiwyd i'r treial.

*Roedd hyfforddiant yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ei weld fel 'diweddariad' da*

3.15 Roedd y rhan fwyaf o'r rheolwyr achos a gafodd eu cyfweld wedi mynychu hyfforddiant ar y dull ECM. Dywedodd y mwyafrif fod yr hyfforddiant yn berthnasol, o ansawdd uchel, yn gywir o ran hyd a manylder, ac yn uniongyrchol berthnasol i ymarfer ac i weithredu'r dull ECM. Roeddent yn ei ddisgrifio fel 'diweddariad' da o'r wybodaeth a'r sgiliau roeddent eisoes yn eu defnyddio'n rheolaidd fel rhan o'u hymarfer.

3.16 Nododd y rheolwyr achos a oedd yn rhan o'r treial ond oedd heb fynychu'r hyfforddiant ddau brif reswm am hynny: gwrthdaro rhwng blaenoriaethau yn eu dyddiadur a/neu ddod yn rhan o'r treial ar ôl yr hyfforddiant. Nid oedd mwyafrif yr aelodau staff eraill a oedd yn gweithio yn y Timau Troseddau Ieuenctid mewn rolau heblaw rheoli achosion wedi cael hyfforddiant. Nododd y ddau grŵp hyn o ymatebwyr fod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r dull ECM wedi'u datblygu yn y swydd neu wedi'u rhaeadru'n anffurfiol gan reolwr achos a oedd wedi mynychu'r hyfforddiant. Roedd cydsyniad cyffredin y byddai hyfforddiant wedi gwella eu cyfraniad mewn perthynas â'r dull ECM. Yn sgil hyn, roeddent yn argymell cynnal hyfforddiant yn fwy rheolaidd ar gyfer grŵp mwy o staff. Cymeradwywyd hyn gan reolwyr gweithredol.

*Roedd nifer o fanteision i'r dull creu achosion*

3.17 Roedd data monitro perfformiad (Quick Reference Case Record, 2016) yn dangos:

- Bod cyfarfodydd creu achos wedi'u cynnal ar gyfer pob person ifanc a oedd yn rhan o'r treial.

- 38 diwrnod oedd yr amser rhwng atgyfeirio a chynnal cyfarfod creu achos ar gyfartaledd. 41 diwrnod oedd yr amser rhwng cyfarfod creu achos a pharatoi'r adroddiad creu achos ar gyfartaledd.

- Roedd pob achos a oedd yn rhan o'r dull ECM wedi cael o leiaf un cyfarfod adolygu creu achos. Cyfartaledd nifer yr adolygiad a gynhaliwyd ym mhob achos oedd 5.8, gan amrywio o 1 i 11.

3.18 Roedd staff Timau Troseddau Ieuenctid, y seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect o'r farn bod y broses creu achos yn gweithio'n dda ar y cyfan ac yn cael ei gweithredu'n unol â'r canllawiau ymarfer a disgwyliadau. Dywedwyd bod:

- Presenoldeb cymharol dda gan amrywiaeth o asiantaethau.

- Y dull yn esgor ar ragor o ddealltwriaeth.

- Mwy o ffocws ar sicrhau bod ymyriadau yn cyfateb i angen a bod dilyniant priodol.

- Cymorth yn cael ei gydgysylltu'n well rhwng asiantaethau.

- Cynnydd yn cael ei fonitro, gwybodaeth newydd yn cael ei chreu a bod y broses adolygu'n cynnal momentwm.

- Sicrhau mynediad at arbenigedd ychwanegol drwy gynnwys seicolegydd clinigol.

*Cyfranogiad gan asiantaethau eraill wedi dechrau'n gryf ond wedi gostwng dros amser*

3.19 Yn ôl y rhai a gafodd eu cyfweld o'r Timau Troseddau Ieuenctid, FACTS ac arweinydd y prosiect, roedd cyfranogiad asiantaethau eraill yn y dull ECM yn dda ar y cyfan. Roedd diddordeb ac ymgysylltiad yn y camau cynnar yn gadarnhaol ar draws y tri Thîm Troseddau Ieuenctid, gydag asiantaethau statudol a sefydliadau'r sector gwirfoddol yn dangos diddordeb rhagweithiol mewn cymryd rhan. Yn y cyfweliadau pwysleisiwyd manteision cael cyfraniad asiantaethau eraill mewn cyfarfodydd creu achos: rhannu gwybodaeth, datgelu gwybodaeth newydd/wahanol, meithrin dealltwriaeth gyffredin, dadansoddi tueddiadau a phatrymau, a chytuno ar ddull cydlynol o weithio gyda'r person ifanc. Nodwyd manteision ehangach cynnwys asiantaethau eraill yn y dull ECM hefyd. Er enghraifft, ar gyfer pobl ifanc unigol gallai helpu i gynyddu eu mynediad at wasanaethau eraill e.e. meddygon teulu neu CAMHS. Gallai'r dull ECM helpu hefyd i rannu'r cyfrifoldeb am berson ifanc, e.e. ar draws asiantaethau a rhwng ymarferwyr, gan helpu i leddfu'r argraff gan weithwyr Timau Troseddau Ieuenctid eu bod yn teimlo'n gwbl gyfrifol am wella canlyniadau person ifanc mewn rhai achosion.

3.20 Wedi dweud hynny, cafodd pob un o'r tri Thîm Troseddau Ieuenctid anhawster wrth gynnal cyfranogiad asiantaethau eraill dros amser. Roedd presenoldeb mewn a/neu ymgysylltiad ag adolygiadau creu achos yn dda ar y cyfan ond yn gostwng maes o law, e.e. llai o bresenoldeb a llai o ymgysylltiad mewn cyfarfodydd adolygu. Ychydig iawn o gysondeb oedd ar draws y

Timau Troseddau Ieuenctid o ran pa asiantaethau oedd fwyaf tebygol o ymddieithrio dros amser ac roedd hyn yn amrywio o achos i achos o fewn Timau Troseddau Ieuenctid.

3.21 Ategwyd y canfyddiadau hyn mewn adolygiadau o ffeiliau achos. Mewn pedwar achos, nodwyd bod ymgysylltiad da mewn cyfarfodydd creu achos gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol perthnasol, e.e. gwasanaethau plant, tai, heddlu, ac addysg. Mewn dau achos, nodwyd bod cynrychiolwyr gwasanaethau plant, addysg a CAMHS yn absennol ac, mewn rhai achosion, bod hyn yn arwain at gasglu gwybodaeth lai manwl am angen a/neu'r angen am ymgysylltiad ychwanegol y tu allan i gyfarfod creu achos.

3.22 Nododd adolygiadau o ffeiliau achos amrywiaeth eang o fanteision o gael ymgysylltiad gan asiantaethau eraill, e.e. mynediad at asesiadau ychwanegol, gwell mynediad at gymorth/gwasanaethau, ac ymatebion mwy cydlynol i anghenion person ifanc.

3.23 Cafodd dau brif reswm am ddiffyg ymgysylltiad eu crybwyll yn y cyfweliadau. Roedd y cyntaf yn ymwneud â faint o amser yr oedd angen i asiantaethau ei neilltuo gyda’r dull ECM. Dywedodd ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid, er enghraifft, fod cyfarfodydd creu achos ac adolygu achos yn gallu bod yn hir, a bod hynny’n gwneud aelodau eraill o staff yn gyndyn o’u mynychu. Awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y gellid mynd i’r afael â hyn drwy reoli disgwyliadau’n fwy rhagweithiol, e.e. bod yn glir am yr ymrwymiad amser sydd ei angen a’r manteision sy’n gysylltiedig â mynychu a chyfrannu. Roedd yr ail agwedd yn gysylltiedig â hyn ac yn ymwneud â sicrhau lefel uwch o ymrwymiad gan asiantaethau eraill i’r dull ECM. I’r perwyl hwn, awgrymodd y rhai a gafodd eu cyfweld y gallai ymarferwyr o asiantaethau eraill elwa ar gael hyfforddiant/hyfforddiant sefydlu ar y dull ECM. Er i’r rhai a gafodd eu cyfweld ddweud bod lefel y diddordeb yn uchel, dadleuent y gallai hyn helpu i gynyddu ymrwymiad a chynnal cyfranogiad ymhellach. Fe bwysleision nhw hefyd y gallai hyfforddiant amlasiantaeth helpu i ledaenu manteision y dull ECM i ymarferwyr eraill sy’n gweithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth a gallai helpu i sicrhau model ymarfer cyffredin ar draws asiantaethau, o ystyried y posibilrwydd bod nifer o’r asiantaethau yn gweithio gyda’r un bobl ifanc.

*Roedd goruchwyliaeth glinigol yn cael ei hystyried yn elfen allweddol o’r dull*

3.24 Roedd y rhan fwyaf - er nad y cyfan - o’r ymarferwyr a oedd yn rheoli achos o dan y dull ECM wedi derbyn goruchwyliaeth glinigol allanol gan y seicolegydd clinigol FACTS. Y prif reswm dros beidio â chael goruchwyliaeth glinigol oedd dewis peidio. Soniodd nifer fach hefyd am anawsterau o ran logisteg a oedd wedi effeithio ar y gallu i gael goruchwyliaeth glinigol.

3.25 Roedd y mwyafrif a oedd wedi cael goruchwyliaeth glinigol o’r farn ei bod yn rhywbeth cadarnhaol. Dywedent ei bod yn wahanol i’r oruchwyliaeth a roddir gan reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid gan ei bod yn canolbwyntio ar anghenion y gweithiwr (proffesiynol a phersonol) o ganlyniad i weithio gydag achosion cymhleth sy’n aml yn cynnwys trawma o ryw fath. Roedd hefyd yn fforwm defnyddiol ar gyfer monitro cynnydd a oedd wedi’i wneud mewn achos. Roedd y rheini a oedd yn cael goruchwyliaeth glinigol yn gwerthfawrogi cael mynediad at arbenigwr allanol.

3.26 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd goruchwyliaeth glinigol yn ddefnyddiol. Y rheswm am hyn oedd nad oedd arddull a chynnwys yr oruchwyliaeth yn gydnaws ag anghenion neu ddewisiadau'r ymarferydd ar y pryd. Er enghraifft, roedd un ymatebwr yn teimlo'n annifyr yn trafod ei deimladau a'i brofiadau personol o fewn goruchwyliaeth glinigol, ac roedd ymatebwr arall yn teimlo bod y sesiwn yn rhy nawddoglyd. Er gwaethaf y profiadau hyn, roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno bod mynediad at oruchwyliaeth glinigol yn agwedd bwysig ar y dull ECM.

3.27 Tynnodd lleiafrif o reolwyr achos sylw at rai heriau o ran logisteg gyda goruchwyliaeth glinigol, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag:

- oedi cyn cynnal goruchwyliaeth glinigol (yn enwedig yng nghamau cynnar y treial). Dywedwyd mai'r prif reswm am hyn oedd anhawster canfod dyddiadau a oedd yn gyfleus i bawb ar gyfer yr oruchwyliaeth; a/neu

- oruchwyliaeth glinigol yn cael ei gohirio fel bod adolygiadau creu achosion yn cael eu cynnal.

3.28 Yn ôl yr ymatebwyr hyn roedd y problemau hyn yn codi'n bennaf o ganlyniad i'r heriau o gael tîm canolog bach (h.y. FACTS) yn gweithio ar draws tri Thîm Troseddau Ieuenctid a chyfuno gwaith ar y treial gydag ymrwymiadau eraill yn y tîm FACTS. Ategwyd y canfyddiad hwn gan yr Highlight and Exception Report (Mehefin i Fedi 2015) a oedd yn nodi anawsterau o ran recriwtio seicolegydd ychwanegol i FACTS, a oedd yn effeithio ar allu'r tîm FACTS i gyflawni pob agwedd ar y contract.

3.29 Yn olaf, fe wnaeth ymatebwyr ganmol pa mor hygyrch ac ymatebol oedd y seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect wrth ymateb i ymholiadau neu gwestiynau wrth iddynt godi.

3.30 At ei gilydd, daeth staff Timau Troseddau Ieuenctid i'r casgliad bod goruchwyliaeth glinigol gan seicolegydd clinigol allanol yn elfen bwysig ac allweddol o'r dull ECM. Roedd hyn am ei bod yn rhoi mynediad at arbenigedd nad oedd ar gael yn hawdd yn y Timau Troseddau Ieuenctid a'i bod yn sicrhau bod ymarfer yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar ddilyn gofynion y TRM.

*Roedd barn gymysg ynghylch a oedd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer gweithredu'r dull*

3.31 Cymysg oedd barn y Timau Troseddau Ieuenctid ynghylch a oedd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r dull ECM yn effeithiol - er nad oedd y farn bob amser yn gyson o fewn pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn hyn o beth. Yn fras, roedd rhanddeiliaid mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid o'r farn mai hanfod y dull ECM oedd gweithio gyda phobl ifanc mewn ffordd wahanol, yn hytrach na threulio mwy o amser gyda nhw. O ganlyniad, fe wnaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid hwn ymgorffori'r treial heb leihau llwythi achosion neu gynyddu adnoddau eraill. Ar y llaw arall, fe wnaeth rhanddeiliaid yn y ddau Dîm Troseddau Ieuenctid arall bwysleisio'r angen i reolwyr fynd ati'n fwy gweithredol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r dull ECM i helpu i sicrhau bod modd ei reoli ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill. Awgrymodd rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid y gallai hyn fod o ganlyniad i sut roedd Timau

Troseddau Ieuenctid yn cael eu cyllido a'u cyflenwi ag adnoddau ar adeg cyflwyno'r treial. Roedd cydsyniad cyffredinol y byddai'r Timau Troseddau Ieuenctid hynny a oedd yn rheoli llwythi achosion mwy i bob gweithiwr yn ei chael hi'n anoddach gweithredu'r dull ECM heb adnoddau ychwanegol o bosibl.

**Ymgysylltiad pobl ifanc o dan y dull ECM**

*Ychydig iawn o anawsterau a gofnodwyd wrth sicrhau cyfranogiad pobl ifanc yn y treial*

3.32 Ychydig iawn o anawsterau a gafodd eu crybwyll gan aelodau'r Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld o ran sicrhau cyfranogiad pobl ifanc cymwys yn y treial. Yn bennaf, dywedwyd bod pobl ifanc 'ddim yn hidio' neu'n 'ddidaro' am gymryd rhan hyn, yn hytrach na'n dangos diddordeb neu'n hynod awyddus i gymryd rhan. Ar brydiau, roedd pobl ifanc angen sicrwydd na fyddai gofyn iddynt wneud unrhyw beth yn wahanol neu'n ychwanegol yn ystod y treial o gymharu â'u hymgysylltiad blaenorol â'r Timau Troseddau Ieuenctid.

3.33 Gwrthododd nifer fach o bobl ifanc gymryd rhan.. Dywedodd staff Timau Troseddau Ieuenctid mai ymddygiad ac amgylchiadau'r person ifanc unigol oedd wrth wraidd hyn ac, yn arbennig, amharodrwydd i drafod gwybodaeth bersonol neu sensitif iawn gyda'u gweithiwr. Nid oedd unrhyw nodweddion eraill yn gyffredin gan y rhai a benderfynodd beidio â chymryd rhan.

3.34 Ni wnaeth rhanddeiliaid nodi unrhyw welliannau a oedd eu hangen i'r dull ECM er mwyn gwella ymhellach nifer y bobl ifanc gymwys sy'n dewis cymryd rhan yn y dull ECM.

*Roedd proffil y bobl ifanc yn y treial yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r meini prawf cymhwysedd diwygiedig*

3.35 Roedd staff Timau Troseddau Ieuenctid, y seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect yn cytuno bod y bobl ifanc yn y treial yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd diwygiedig. Ategwyd hyn gan y data monitro a'r Pecyn Cymorth Aildroseddu. Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach isod.

3.36 Roedd pedwar person ifanc yn y treial yn 14 oed neu'n iau, roedd 12 person ifanc yn 15 neu 16 oed, ac roedd pump yn 17 oed. Roedd 16 yn wryw a phump yn fenyw. Roeddent i gyd yn Wyn Prydeinig. Roedd pum person ifanc naill ai'n derbyn gofal ar hyn o bryd neu wedi'n flaenorol[7] (Ffynhonnell: Pecyn Cymorth Aildroseddu).


3.37 Mae Ffigur 4 yn dangos bod gan y bobl ifanc amrywiaeth eang o anghenion cymhleth yn unol â'r meini prawf cymhwysedd. Y problemau mwyaf cyffredin (a oedd yn hysbys neu'n cael eu hamau) oedd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, trais domestig, cam-drin corfforol a hunan-niweidio. Ar draws y cohort, y nifer cyfartalog o broblemau (yn hysbys neu'n cael eu hamau) a oedd yn wynebu person ifanc oedd 6.0. Ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid unigol, y niferoedd cyfartalog oedd 5.1, 6.0 ac 8.4.

[7] Roedd data ar goll ar gyfer pum person ifanc.

3.38 Yn unol â'r meini prawf cymhwysedd, roedd pob person ifanc yn y treial wedi cyflawni o leiaf pum trosedd a oedd wedi'u heuogfarnu (ffynhonnell: Quick reference case record), a'r uchafswm oedd wyth. Y nifer cyfartalog o droseddau a euogfarnwyd ar draws y cohort oedd 6.1. Cyfartaleddau pob Timau Troseddau Ieuenctid oedd 5.8, 6.4 a 7.0.

3.39 Roedd 11 person ifanc yn y treial yn cwblhau Gorchymyn Atgyfeirio ac roedd 10 yn cwblhau Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Roedd rhai gwahaniaethau rhwng Timau Troseddau Ieuenctid ym mhroffil gorchmynion, gyda phob person ifanc yn Timau Troseddau Ieuenctid A yn cwblhau Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid, roedd dros hanner y bobl ifanc yn Timau Troseddau Ieuenctid C yn cwblhau Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid ac roedd chwarter y bobl ifanc yn Timau Troseddau Ieuenctid B yn cwblhau Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid. Roedd hyd gorchmynion yn amrywio o Orchymyn Atgyfeirio chwe mis o hyd i Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid 18 mis o hyd.

**Ffigur 4: Nifer y problemau (sy'n hysbys neu'n cael eu hamau) sy'n wynebu pobl ifanc yn y treial**




Ffynhonnell: Quick Reference Case Record, n= 21

Gellid dewis mwy nag un broblem.

3.40 Ar ddechrau eu hymgysylltiad â'r dull ECM, cafodd risg pobl ifanc o aildroseddu eu sgorio gan y Timau Troseddau Ieuenctid ar raddfa tri phwynt (h.y. 1 = isel, 2 = canolig, 3 = uchel). O dan AssetPlus, mae'r sgôr yn deillio o farn broffesiynol y gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid a Graddfa Ailgollfarnu'r Grŵp Troseddwyr Ifanc (YOGRS) sy'n cyfuno nifer o ffactorau am y person ifanc a'i hanes troseddu i gyfrifo sgôr sy'n helpu i asesu'r

tebygolrwydd o aildroseddu 8 (YJB, 2014b). Y risg gyfartalog o aildroseddu ar gyfer pobl ifanc yn y treial oedd 2.3 (‘canolig’). Ym mhob Timau Troseddau Ieuenctid, y gyfradd ganolrif oedd ‘canolig’. Dim ond mewn un achos y cafodd person ifanc sgôr ‘isel’.

3.41 Mae Tabl 4 yn dangos sgoriau cyfartalog ar gyfer risg o niwed difrifol a statws agored i niwed ar ddechrau eu cyfranogiad yn y dull ECM. Mae sgoriau’n defnyddio graddfa pedwar categori gan ddefnyddio barn broffesiynol rheolwr achos y Timau Troseddau Ieuenctid am y person ifanc[9] (YJB, 2014b): isel = 1, canolig = 2, uchel = 3 ac uchel iawn = 4. Sgoriau cyfartalog ar gyfer y risg o niwed ac ar gyfer natur agored i niwed pobl ifanc ar ddechrau eu hymgysylltiad â’r dull ECM oedd 1.9 (rhwng ‘isel’ a ‘canolig’) yn achos y cyntaf a 2.3 (rhwng ‘canolig’ ac ‘uchel’) yn achos yr ail. Ym mhob categori, pobl ifanc yn Timau Troseddau Ieuenctid C oedd â’r sgôr gyfartalog uchaf ar gyfer risg o niwed difrifol (2.4) a natur agored i niwed (3.2) o gymharu â chyfartaledd cyffredinol o 1.9 a 2.3).

**Tabl 6: Sgoriau cyfartalog ar gyfer risg o niwed difrifol a natur agored i niwed ar ddechrau ymgysylltiad â’r dull ECM, yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid ac yn gyffredinol**

| Timau Troseddau Ieuenctid | Risg o niwed difrifol | Agored i niwed |
|---|---|---|
| **A** | 2.0 | 2.3 |
| **B** | 1.7 | 2.0 |
| **C** | 2.4 | 3.2 |
| **Cyffredinol** | **1.9** | **2.3** |

Ffynhonnell: Pecyn Cymorth Aildroseddu, n = 19 ar gyfer risg o niwed difrifol, n = 21 ar gyfer natur agored i niwed

[8] Mae sgôr YOGRS o 0-43 y cant yn ‘isel’, 44-76 y cant yn ‘ganolig’ a 77-100 y cant yn ‘uchel’.

[9] Ar gyfer perygl o niwed difrifol, caiff y categorïau eu diffinio fel a ganlyn: ‘isel’ (1): nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos tebygolrwydd o ymddygiad niweidiol difrifol yn y dyfodol; ‘canolig’ (2): rhywfaint o risg wedi’i nodi ond mae’r person ifanc yn annhebygol o achosi niwed difrifol oni bai bod amgylchiadau’n newid. Gellir mynd i’r afael â materion perthnasol fel rhan o’r broses oruchwylio arferol; ‘uchel’ (3): risg o niwed difrifol wedi’i nodi. Gallai’r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai’r effaith yn ddifrifol. Dylid cymryd camau yn y dyfodol agos a bydd angen goruchwyliaeth a montiro ychwanegol ar yr achos; ‘uchel iawn’ (4): risg dybryd o niwed difrifol wedi’i nodi. Bydd y person ifanc yn cyflawni’r ymddygiad dan sylw cyn gynted ag y dae cyfle a byddai’r effaith yn ddifrifol. Mae angen cymryd camau gweithredu amlasiantaeth ar unwaith yn ôl pob tebyg. Ar gyfer bod yn agored i niwed, diffinnir y categorïau fel a ganlyn: ‘isel’ (1): dim risg i ddiogelwch a llesiant y person ifanc wedi’i nodi neu mae’r risgiau sydd wedi’u nodi yn annhebygol o ddigwydd ac ni fyddent yn effeithio ar iechyd neu lesiant uniongyrchol y person ifanc; ‘canolig’ (2): mae rhai risgiau i ddiogelwch a llesiant y person ifanc wedi’u nodi ac yn debygol o ddigwydd. Mae diogelwch a llesiant uniongyrchol y person ifanc yn annebygol o gael ei beryglu ar yr amod bod camau penodol yn cael eu cymryd; ‘uchel’ (3): mae risgiau amlwg i ddiogelwch a llesiant y person ifanc wedi’u nodi, yn debygol o ddigwydd a gallai’r effaith beryglu diogelwch a llesiant y person ifanc. Mae angen camau yn y dyfodol agps ac maent yn debygol o gynnwys asiantaethau eraill yn ogsytal â’r Timau Troseddau Ieuenctid; ‘uchel iawn’ (4): mae risgiau clir i ddiogelwch a llesiant y person ifanc wedi’u nodi, maent ar fin digwydd ac nid yw’r person ifanc yn ddiogel. Mae angen gweithredu ar unwaith i amddiffyn y person ifanc, a fydd yn cynnwys atgyfeirio i wasanaethau amddiffyn plant statudol.

*Roedd cyfraddau gadael y treial yn isel*

3.42 Roedd cyfweliadau gyda staff Timau Troseddau Ieuenctid, y seicolegydd clinigol FACTS, arweinydd y prosiect a phobl ifanc yn awgrymu nad oedd unrhyw berson ifanc wedi gadael y treial am nad oedd yn dymuno cymryd rhan mwyach. Y prif reswm a roddwyd dros hyn oedd cryfder a natur adeiladol y berthynas a gafodd ei meithrin rhwng y gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid a'r bobl ifanc.

3.43 Roedd nifer fach o bobl ifanc yn anghymwys i barhau i gymryd rhan yn y treial am eu bod wedi dechrau dedfryd dan glo (naill ai am gael dedfryd am euogfarn a oedd ganddynt eisoes tra'u bod ar y treial neu am eu bod wedi cyflawni trosedd newydd). O dan yr amgylchiadau hyn, pwysleisiodd gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid fanteision posibl defnyddio'r dull ECM o fewn yr ystâd ddiogel. Gwelwyd bod dwy fantais i hyn, h.y. parhad y dull a manteision/effeithiau canfyddedig ECM.

*Barnwyd bod lefel ymgysylltiad pobl ifanc â'r Timau Troseddau Ieuenctid wedi gwella o ganlyniad i ECM*

3.44 Roedd pobl ifanc yn ymwneud â'r dull ECM am 315 diwrnod ar gyfartaledd. Y cyfartaleddau ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid oedd 300 diwrnod, 304 diwrnod a 396 diwrnod (Quick Reference Case Record, 2016, n = 15).

3.45 Roedd mwyafrif y rhai a gafodd eu cyfweld yn cytuno bod ymgysylltiad pobl ifanc â'r Timau Troseddau Ieuenctid a gyda gofynion eu gorchymyn wedi gwella wrth gymryd rhan yn y dull ECM a dywedwyd bod hyn wedi rhagori ar ddisgwyliadau neu obeithion ar sail profiad blaenorol o weithio gyda'r person ifanc a/neu rywun ag anghenion tebyg. Tynnwyd sylw at nifer o achosion lle'r oedd gwaith blaenorol gyda phobl ifanc cyn y treial wedi bod yn anodd tu hwnt (e.e. llawer o wrthdaro, ymgysylltiad isel, diffyg sylw, diffyg ymddiriedaeth, cyfathrebu gwael neu ddim cyfathrebu). Roedd rhanddeiliaid yn disgrifio sut roedd y dull ECM wedi 'taro deuddeg' gyda'r bobl ifanc hyn, e.e. gwella cyfathrebu a chynyddu ymgysylltiad. Cafodd dau brif reswm eu hamlygu gan randdeiliaid am hyn mewn perthynas â'r treial, h.y. mwy o ffocws ar feithrin perthynas gyda'r person ifanc; a newidiadau mewn ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid. Caiff y ddwy elfen hyn eu trafod isod.

**Newidiadau mewn ymarfer**

*Roedd cydsyniad cyffredinol bod ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid wedi newid o ganlyniad i'r dull ECM*

3.46 Yn ystod cyfweliadau dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid (Timau Troseddau Ieuenctid, seicolegydd clinigol, arweinydd y prosiect a phobl ifanc) fod y dull ECM wedi newid ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid. Roedd y meysydd lle gwelwyd newid yn alinio'n agos â'r rheini a nodwyd yn y Model Rhesymeg gwreiddiol ar gyfer y dull ECM (gweler Atodiad 1). Rhoddir gwybodaeth bellach yn Nhabl 7 isod. Adroddir ar ganfyddiadau yn erbyn y meysydd o newid a ddisgwyliwyd yn y Model Rhesymeg.

**Tabl 7: Canfyddiadau mewn perthynas â newidiadau mewn ymarfer**

| Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg | Canfyddiadau |
|---|---|
| ***'Mae anghenion gwaelodol pobl ifanc yn cael eu nodi a'u diwallu yn fwy effeithiol'*** **a** ***'Gwell effeithiolrwydd wrth nodi ac asesu anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl'*** | Ystyriwyd bod y broses creu achos yn arbennig o ddylanwadol o ran helpu i nodi anghenion gwaelodol. Dywedodd mwyafrif y staff Timau Troseddau Ieuenctid a'r seicolegydd clinigol a'r arweinydd prosiect fod y broses hon wedi datgelu gwybodaeth newydd neu batrymau newydd a oedd yn berthnasol i ddeall hanes troseddu person ifanc a/neu risgiau cyfredol/y dyfodol, e.e. hanes o gam-drin neu brofedigaeth, patrwm o ymddygiad troseddol dros amser. Dywedodd aelodau staff eraill Timau Troseddau Ieuenctid fod cynnwys a strwythur dogfennau asesu yn newid o ganlyniad i'r dull ECM, gydag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl yn cael mwy o broffil a phwys.<br><br>Cadarnhawyd hyn ymhellach drwy adroddiadau ac asesiadau adolygu'r broses creu achos. Roedd yr holl brosesau creu achos a gafodd eu hadolygu: (a) o ansawdd uchel; (b) wedi'u llywio gan gamau'r TRM; (c) yn canolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael ag anghenion gwaelodol; a (d) yn dilyn trefn glir.<br><br>Roedd pob un o'r bobl ifanc ond un[10] o'r farn bod gan eu gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a bod y gwaith a wneir gan y Timau Troseddau Ieuenctid yn mynd i'r afael â'r materion oedd bwysicaf iddynt. Yn ogystal, roedd yr holl bobl ifanc a gwblhaodd holiadur yn 'cytuno'n gryf':<br>• bod gan eu gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid ddealltwriaeth dda o'u hanghenion<br>• eu bod wedi cael y math iawn o gymorth |

[10] Nid oedd un person ifanc yn teimlo ei fod yn gallu mynegi barn.

| Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg | Canfyddiadau |
|---|---|
| | • mai'r pethau cyntaf roedd y gweithiwr wedi'u helpu gyda nhw oedd y pethau pwysicaf iddynt<br>• eu bod yn gallu ymddiried yn eu gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid.<br><br>Dywedodd y rhai a gafodd eu cyfweld bod y gwelliannau a ddisgrifir uchod wedi'u cyflawni am bedwar prif reswm, h.y.:<br><br>• roedd y cyfarfod creu achos yn canolbwyntio'n arbennig ar anghenion gwaelodol<br>• roedd yr asesiad yn cael ei lywio gan fodel trosfwaol, h.y. TRM<br>• roedd y dull ECM wedi helpu i sicrhau cyfranogiad nifer o asiantaethau am gyfnod priodol. Roedd hyn am ei fod yn cael ei lywio gan fodel seiliedig ar dystiolaeth a chyfraniad seicolegydd clinigol uwch ac uchel ei barch. (Er gweler paragraff 3.20 am wybodaeth am sut i'r ymgysylltiad leihau dros amser.)<br>• roedd gan ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid fynediad at arbenigedd allanol gan FACTS ac arweinydd y prosiect i hwyluso cyfarfodydd a chynnig dealltwriaeth/safbwyntiau ychwanegol. |
| ***'Mae'r gweithlu'n fwy cymwys i ddeall sut mae ymlyniad a thrawma mewn plentyndod cynnar yn gallu effeithio ar ddatblygiad ac iechyd meddwl'* ac *'Mae ymarferwyr yn fwy ymwybodol o sut mae ymlyniad a thrawma*** | Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid Timau Troseddau Ieuenctid fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r materion hyn cyn cymryd rhan yn y dull ECM. Serch hynny, cytunent fod y treial yn helpu i ddilysu pwysigrwydd yr hyn roeddent yn ei wybod eisoes ac i sicrhau bod yr agweddau hyn yn cael blaenoriaeth briodol mewn ymarfer.<br><br>Pwysleisiodd rhanddeiliaid Timau Troseddau Ieuenctid sut roedd ymarfer blaenorol yn canolbwyntio'n rhy aml ar y broses ac amserlenni a gallai hyn arwain at 'golli golwg' ar amgylchiadau ac anghenion y person ifanc. Yn hyn o beth, nododd rhanddeiliaid Timau Troseddau Ieuenctid fod y prif faes newid ar lefel sefydliad, yn hytrach na lefel bersonol. Hynny yw, roedd y dull ECM yn helpu i sicrhau bod timau a sefydliadau yn eu cyfanrwydd yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i weithio'n uniongyrchol gyda'r person ifanc. Cadarnhawyd hyn mewn cyfweliadau gyda'r |

| Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| ***mewn plentyndod cynnar yn gallu effeithio ar y glasoed'*** | seicolegydd clinigol FACTS a'r arweinydd prosiect a nododd fod y dull ECM yn helpu i roi hwb i hyder ymarferwyr o ran ymateb i anghenion y person ifanc yn hytrach na mynd i'r afael yn awtomatig ag ymddygiad troseddu, a oedd yn aml yn symptom o anghenion gwaelodol. |
| ***'Mae cynlluniau ymyrryd* [gweler paragraff 1.41] *wedi'u teilwra'n well i anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl plant unigol.'*** | Dywedodd hanner y staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld fod y dull ECM wedi arwain at newidiadau yng nghynnwys cynlluniau ymyrryd pobl ifanc. Yn eu plith roedd cynnwys cymorth ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau ehangach sy'n wynebu'r person ifanc. Cadarnhawyd hyn mewn adolygiadau o ffeiliau achos, lle'r oedd pob un o'r adroddiadau creu achos yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion datblygu ac iechyd meddwl yr unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft:<br>• gwneud cais am asesiadau dilynol i ddeall a oedd gan blentyn anawsterau dysgu<br>• nodi problemau gweithrediad gwybyddol, gweithrediad cymdeithasol a phroblemau datblygiad emosiynol a fyddai'n effeithio ar y ffordd roedd ymarferwyr yn gweithio gyda pherson ifanc<br>• cynnwys addysg seicolegol fel rhan o'r cynllun er mwyn helpu'r person ifanc i ddeall ei brofiadau a mynd i'r afael â galar<br>• darparu tystiolaeth o gymhlethdod, e.e. effeithiau cyfunol anhawster emosiynol a meddyliol, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad rhywiol ac anghenion addysgol arbennig<br>• dyrannu gweithwyr penodol i gynorthwyo person ifanc i helpu i fynd i'r afael â phryderon/problemau, e.e. paru person ifanc gyda gweithiwr gwrywaidd i fynd i'r afael â phryderon datblygiadol ynghylch gwrywdod.<br><br>Dywedodd hanner arall y staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld nad oedd cynnwys cyffredinol gwaith ymyrryd wedi newid rhyw lawer ond bod gwelliannau o'r rhan rhoi ymyriadau mewn trefn (gweler isod). |

| **Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg** | **Canfyddiadau** |
|---|---|
| ***'Mae gan ymarferwyr fwy o hyder i osod ymyriadau mewn trefn i fynd i'r afael ag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl'*** | Roedd mwyafrif y staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld yn cytuno bod eu hyder nhw a/neu eu cydweithwyr o ran gosod ymyriadau mewn trefn wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan yn y dull ECM. Cadarnhawyd hyn gan y seicolegydd clinigol ac arweinydd y prosiect. Cafodd y 'triongl' sy'n cyfateb cyflwyniad/ymddygiad, i angen gwaelodol a haenau ymyriadau (gweler Ffigur 3) ei grybwyll fel adnodd arbennig o gadarnhaol a defnyddiol i gefnogi'r agwedd hon ar y dull. Trafododd y rhai a gafodd eu cyfweld achosion penodol lle cafodd gwaith gyda phobl ifanc ei flaenoriaethu i geisio datrys materion/problemau dybryd a brys a oedd yn wynebu'r person ifanc ac yn ei rwystro rhag ymgysylltu ag ymyriadau Timau Troseddau Ieuenctid eraill. Darparwyd enghreifftiau o newid trefn ymyriadau yn sgil newidiadau ym mywyd person ifanc, e.e. ailffocysu cymorth ar lefel 1 y TRM yn dilyn ymgais gan y person ifanc i ladd ei hun.<br><br>Cadarnhaodd pobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y treial fod y dull ECM yn arwain at ddarparu cymorth mewn gwell trefn. Er enghraifft, roedd pawb a gwblhaodd yr holiadur yn 'cytuno'n gryf' eu bod wedi 'derbyn y math cywir o gymorth ar yr adeg gywir'. Cadarnhawyd hyn ymhellach mewn cyfweliadau lle, er enghraifft, roedd un person ifanc yn cytuno bod ei weithiwr Timau Troseddau Ieuenctid wedi mynd i'r afael â'r materion oedd bwysicaf i'r person ifanc yn gyntaf.<br><br>Roedd adolygiad o ffeiliau achos yn dangos bod penderfynu ar drefn ymyriadau yn ystyriaeth graidd ac amlwg wrth greu pob achos. Roedd hyn yn cynnwys cael syniad clir o'r blaenoriaethau ymyrryd; defnyddio'r TRM i helpu i gytuno ar y camau nesaf; ffocysu ymyriadau ar lefel benodol o'r TRM; a phennu pwysigrwydd meithrin perthynas gyda pherson ifanc cyn cynnal gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar droseddu. |

| **Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg** | **Canfyddiadau** |
|---|---|
| | Yn olaf, dywedodd rhanddeiliaid fod y dull ECM yn rhoi mwy o ymreolaeth i ymarferwyr: roedd yn rhoi hyblygrwydd iddynt ymateb yn y ffordd orau i anghenion y person ifanc. Roedd rhai o fanteision allweddol y dull ECM a nodwyd yn cynnwys ‘rhoi caniatâd’ i symud i ffwrdd oddi wrth ddilyn ‘prosesau un maint yn addas i bawb’ ‘a thaflenni gwaith oddi ar y silff’ tuag at ymyriadau wedi’u teilwra i anghenion penodol y person ifanc. Un enghraifft o hyn a roddwyd gan y seicolegydd clinigol FACTS oedd person ifanc o dan amod Goruchwylio ac Arolygu Dwys (ISS) 25 awr yr wythnos fel rhan o’i Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid a oedd yn ei chael hi’n anodd cydymffurfio â’r amodau oherwydd effaith trawma blaenorol. Defnyddiodd y rheolwr achos Timau Troseddau Ieuenctid y dull ECM a’r TRM i gael cydsyniad y llys i leihau gofynion y gorchymyn er mwyn galluogi’r person ifanc i weithio’n fwy uniongyrchol ar drawma. |
| ***‘Mae ymarferwyr yn fwy cymwys i ymgysylltu pobl ifanc â’u dedfryd a’u cymorth’*** | Roedd ymatebion yn amrywio o ran i ba raddau roedd y staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld yn teimlo’n fwy cymwys i ymgysylltu pobl â’u dedfryd a’u cymorth: roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fwy cymwys. Fel rhan o hyn roeddent yn sôn am wybodaeth, sgiliau neu ddulliau newydd o ganlyniad i weithio o dan y dull ECM. Roedd hanner arall yr ymatebwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn pwysleisio sut roedd y dull ECM yn atgyfnerthu ac yn dilysu’r sgiliau a’r profiad oedd ganddynt eisoes mewn perthynas â gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed a chymhleth.<br><br>Pwysleisiodd y seicolegydd clinigol FACTS a’r arweinydd prosiect sut roedd y dull yn rhoi mwy o ‘ganiatâd’ a hyder i ymarferwyr weithio yn berthynol gyda phobl ifanc. Roedd hyn wedyn yn eu galluogi i fod yn fwy cymwys i ddiwallu eu hanghenion a gwella ymgysylltiad â dedfryd y person ifanc a chymorth arall. |

| Newidiadau mewn ymarfer a ddisgwyliwyd gan y Model Rhesymeg | Canfyddiadau |
|---|---|
| | Roedd y bobl ifanc hynny a gwblhaodd yr holiadur yn ‘cytuno’n gryf’ bod y cymorth a gawsant yn golygu eu bod yn gallu bodloni amodau eu gorchymyn. |

*Roedd y gwelliant mewn perthnasoedd yn cael ei ystyried yn fantais arbennig*

3.47 Dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid fod y dull ECM yn helpu i gael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd eu perthynas gyda phobl ifanc. Roedd enghreifftiau a gafodd eu crybwyll mewn cyfweliadau yn cynnwys:

- bod y dull ECM yn rhoi mwy o bwyslais ar feithrin perthynas waith dda gyda phobl ifanc a bod hyn yn cael mwy o flaenoriaeth nag mewn dulliau blaenorol o weithio
- bod y dull ECM yn 'rhoi caniatâd' i ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid amrywio eu hymarfer i ganolbwyntio ar feithrin perthynas gyda phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyfarfod pobl ifanc y tu allan i'r Timau Troseddau Ieuenctid mewn lleoliadau anffurfiol a buddsoddi mwy o amser mewn meithrin perthynas, heb dasg neu raglen waith strwythuredig, amlwg
- bod y ffocws ar anghenion gwaelodol yn golygu bod gan weithwyr well dealltwriaeth o bobl ifanc a bod hyn yn helpu i feithrin perthynas fwy ystyrlon
- bod perthynas waith well gyda phobl ifanc yn arwain at fwy o ymddiriedaeth a mwy o ddatgelu materion a phryderon personol
- bod cyflwyno ymyriadau cam wrth gam yn golygu bod rhanddeiliaid yn teimlo bod pobl ifanc yn ystyried bod y gweithiwr 'ar eu hochr nhw' ac yn gallu eu helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r problemau yn eu bywyd
- bod y dull ECM yn caniatáu dull amgen o reoli diffyg cydymffurfiaeth a/neu dorri amodau. Er enghraifft, dywedodd ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid y byddai diffyg cydymffurfiaeth neu fethiant i fynychu apwyntiadau yn arwain yn awtomatig at gamau gorfodi ac achos tebygol o dorri amodau mewn achos lle nad oedd y dull ECM yn cael ei ddefnyddio. O dan y dull ECM, dywedodd ymarferwyr fod mwy o bwyslais ar ddeall y rheswm am ddiffyg cydymffurfiaeth neu dorri amodau ac y gellid gweithredu ymateb gwahanol yn sgil amgylchiadau eithriadol. Roedd hyn, yn ei dro, yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol gyda'r person ifanc.

3.48 Cafodd y farn am effeithiolrwydd y dull ECM o ran meithrin perthynas gyda phobl ifanc ei hatgyfnerthu yn yr ymatebion i'r holiadur. Roedd pobl ifanc yn galonogol iawn am y ffordd roedd gweithiwr yn siarad â nhw, yn gwrando arnynt, ac yn eu trin nhw; a'r cyfleoedd roeddent yn eu cael i helpu i gynllunio eu rhaglen/gwaith. Roeddent yn gadarnhaol hefyd am y lleoedd lle roeddent yn cyfarfod â'u gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid.

3.49 Yn ogystal, mewn ymateb i gwestiwn agored yn yr arolwg am yr hyn oedd yn wahanol am y dull ECM o gymharu â'u gorchymyn/gorchmynion blaenorol yn y Timau Troseddau Ieuenctid, dywedodd un person ifanc 'ffordd wahanol o weithio, siarad â fi a threulio amser gyda fi', ysgrifennodd un arall 'ces gyfle i drio pethau newydd' a soniodd y trydydd am 'y ffordd roedden nhw'n siarad â fi'. Wrth ymateb i gwestiwn am eu hoff beth am y dull ECM, dywedodd un person ifanc 'roedd yn fwy buddiol na'r tro diwethaf'; dywedodd person ifanc arall 'mwy o amser yn siarad yn lle ysgrifennu' a dywedodd trydydd person ifanc '[helpodd fi

i] orffen fy ngorchymyn'. Ni wnaeth yr un o'r bobl ifanc a gwblhaodd holiadur nodi unrhyw beth roeddent yn ei 'hoffi leiaf' am y dull ECM.

3.50 Yn sgil y canfyddiadau hyn am ansawdd perthnasoedd, holwyd rhanddeiliaid mewn rhai cyfweliadau a oedd y dull ECM yn esgor ar ddwy risg bosibl: (1) problemau wrth dorri cysylltiad â phobl ifanc ar ddiwedd eu gorchymyn; a (2) llai o bwyslais ar reoli risg a diogelwch y cyhoedd/dioddefwyr.

- **Ychydig iawn o broblemau o ran torri cysylltiad.** Nid oedd tua hanner y rhanddeiliaid a holwyd am y mater hwn yn cytuno bod perthynas well yn effeithio ar allu'r Timau Troseddau Ieuenctid i dorri cysylltiad â'r person ifanc (ac fel arall) ar ddiwedd y gorchymyn. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn fod trefniadau pontio cadarn ar waith, e.e. trosglwyddo'n effeithiol i wasanaethau prawf neu i dimau gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hanner arall y rhanddeiliaid yn sôn am rai heriau o ran sicrhau torri cysylltiad yn effeithiol, e.e. ymgysylltiad parhaus â'r person ifanc y tu allan i ofynion uniongyrchol y gorchymyn. Dywedodd pob un ohonynt mai mater byrdymor oedd hwn a bod modd ei reoli.
- **Dim problemau o ran rheoli risg a diogelwch y cyhoedd/dioddefwyr.** Roedd pob rhanddeiliad a holwyd am y mater hwn yn cytuno nad oedd gwelliannau yn y berthynas gyda'r person ifanc ar draul dull cadarn o reoli risg neu sicrhau diogelwch y cyhoedd/dioddefwyr. Soniodd rhanddeiliaid am well empathi a dealltwriaeth o fywydau pobl ifanc a'r problemau a wynebent. Roeddent yn dadlau bod hyn yn cynyddu eu gallu i ymgysylltu â phobl ifanc am droseddu yn y gorffennol a'r dyfodol mewn modd mwy adeiladol ac ystyrlon. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y byddai diffyg cydymffurfiaeth – os nad oedd modd ei gyfiawnhau neu os oedd yn beryglus – yn arwain at gamau gorfodi clir o hyd.

*Y farn oedd bod cyfran helaeth o'r newid mewn ymarfer yn sefydliadol yn hytrach nag unigol*

3.51 Ar gyfer hanner y rhai a gafodd eu cyfweld ar draws y Timau Troseddau Ieuenctid, seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect, roedd y newid mewn ymarfer a gyflawnwyd yn sgil y dull ECM yn ymwneud llai â datblygu gwybodaeth neu sgiliau newydd. Er enghraifft, neges gyffredin o'r gwaith maes oedd 'dyma beth rydyn ni'n ei wneud y barod' neu 'dyma pam wnaethon ni benderfynu gweithio yn y maes hwn'. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn mai prif gryfder y dull ECM oedd ei fod yn sbardun, ac yn rhoi cymhelliad ychwanegol, i weithio mewn ffordd roedd ymarferwyr a rheolwyr eisoes yn ei wybod a'i gydnabod fel ymarfer effeithiol. Roedd yr ymarferwyr hyn a holwyd yn dweud bod pwysau o ddydd i ddydd, llwythi gwaith trwm, ffocws ar brosesau a rheoli achosion yn hytrach na chanlyniadau, a fframwaith perfformiad yr YJB yn aml yn golygu bod dulliau effeithiol yn colli blaenoriaeth. Roedd y dull ECM yn helpu unigolion a sefydliadau i ffocysu o'r newydd r bwysigrwydd ymgysylltiad ystyrlon, uniongyrchol gyda'r person ifanc. Roedd hyn, yn sefydliadol, yn cael ei ystyried yn 'fwy o risg' ond bod y dull ECM yn helpu i sicrhau (ymarferwyr, rheolwyr a sefydliadau) bod hwn yn ymateb priodol a chadarn.

*Roedd y dull ECM yn gydnaws ar y cyfan â dulliau cyfredol o gofnodi achosion*

3.52 Roedd ymarferwyr a rheolwyr mewn Timau Troseddau Ieuenctid a'r seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect y cytuno bod y dull ECM, ar y cyfan, yn gydnaws â dulliau cyfredol o gofnodi achosion, e.e. cofnodi asesiadau, cynlluniau, adolygiadau a chysylltiad/gwaith gyda phobl ifanc. Lle'r oedd pryderon am gofnodi achosion wedi'u mynegi, roeddent yn ymwneud yn bennaf â sut roedd systemau'n addas i'r diben wrth gofnodi gwaith sy'n canolbwyntio ar dasgau neu gamau gweithredu ond yn llai defnyddiol ar gyfer cofnodi gwaith i feithrin perthynas gyda phobl ifanc. Roeddent yn ystyried yr elfen olaf hon yn gydran graidd o'r dull ECM na fyddai cofnodi achosion yn ei adlewyrchu'n ddigonol o bosibl. Roedd tarddiad y pryder hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar arolygu ac archwilio lle'r oedd pryder na fyddai defnyddio amser fel hyn yn cael ei weld fel gwaith 'go iawn' neu fuddiol. Rydym ar ddeall bod arweinydd y prosiect wedi trafod y dull gyda'r arolygiaeth berthnasol a bod un o safleoedd y treial wedi cael ei arolygu tra bod y dull ECM ar waith ac na fynegwyd unrhyw bryderon.

3.53 Nodwyd yr arsylwadau hyn mewn adolygiadau ffeiliau achos hefyd: roedd cofnodion yn aml yn faith ac yn ymddangos yn gynhwysfawr ond roedd ymarferwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd cofnodi amcanion, gweithgareddau a chamau gweithredu gan gyfeirio'n benodol at egwyddorion ECM a lefelau TRM. Hefyd, nid oedd diben a chanlyniadau'r ymgysylltiad â'r person ifanc bob amser yn glir.

3.54 Yn olaf, roedd adolygiadau ffeiliau achos yn tynnu sylw at un darn o wybodaeth a oedd ar goll o'r rhan fwyaf o ffeiliau achos a oedd yn ymwneud â chynnwys goruchwyliaeth glinigol allanol. Roedd hyn am fod hyn yn cael ei gofnodi mewn systemau ar wahân gan y goruchwylydd perthnasol o'r tîm FACTS.

**Newidiadau o ran rheoli**

*Roedd rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi'r dull ECM*

3.55 Roedd rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn gefnogol ar y cyfan i'r dull ECM. Roeddent yn cydnabod bod pobl ifanc ag anghenion cymhleth a hanes o droseddu'n gyson yn grŵp allweddol a fyddai'n elwa ar ffocws o'r newydd er mwyn gwella canlyniadau. Roedd rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid wedi alinio â'r farn gyffredinol fod y dull ECM yn sicrhau gwell perthynas â phobl ifanc mewn gorchmynion, a bod yr arwyddion cynnar yn awgrymu effaith gadarnhaol ar ganlyniadau.

3.56 Cadarnhawyd hyn gan aelodau eraill o staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld, a ddywedodd eu bod o'r farn bod rheolwyr yn gefnogol i'r TRM ac yn rhoi cymorth i weithredu'r dull ECM. Er enghraifft, dywedwyd bod rheolwyr yn ddylanwadol o ran rhoi caniatâd i ymarfer ganolbwyntio ar anghenion gwaelodol pobl ifanc ac ar feithrin perthynas waith effeithiol gyda phobl ifanc.

*Nodwyd amrywiaeth o newidiadau i ddulliau rheoli o dan y dull ECM*

3.57 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld fod dull rheolwyr wedi newid o dan y dull ECM. Er enghraifft:

- roedd rheolwyr yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd creu ac adolygu achos
- roedd ymarferwyr yn cael cymorth gan reolwyr i dreulio amser yn meithrin perthynas waith effeithiol gyda phobl ifanc
- roedd rheolwyr yn cyfrannu at drafodaethau parhaus am anghenion gwaelodol pobl ifanc a'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw o dan y dull ECM
- roedd rheolwyr yn cefnogi gwella'r sut roedd ymyriadau'n cael eu cyflwyno gam wrth gam/gosod mewn trefn hyd yn oed os oedd hyn yn golygu bod rhai agweddau o waith Timau Troseddau Ieuenctid yn colli blaenoriaeth (e.e. gohirio gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddu 'oddi ar y silff' er mwyn mynd i'r afael â materion/problemau penodol sy'n wynebu person ifanc ac yn ei rwystro rhag ymgysylltu'n ystyrlon ac yn llawn gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid/gorchymyn)
- cymeradwyodd rheolwyr ddull mwy hyblyg mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth, dull a oedd yn ystyried amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, dywedodd ymarferwyr na fyddai diffyg cydymffurfiaeth o reidrwydd yn arwain at achos o dorri amodau mewn achosion ECM.

3.58 Atgyfnerthwyd y canfyddiadau hyn mewn adolygiadau o ffeiliau achos. Mewn pedwar achos, roedd nodiadau am gyfarfodydd arolygu rheolwyr rhwng y rheolwr a'r rheolwr achos yn dangos trafodaethau am gymhwyso'r TRM a'r dull ECM i achos y person ifanc. Yn y pedwar achos arall, ychydig iawn o dystiolaeth a gofnodwyd o sut byddai'r achos yn gweithredu o dan y dull ECM.

*Dysgwyd dwy wers benodol yn ystod y treial am reolwyr o dan y dull ECM*

3.59 Nododd rhanddeiliaid dwy brif 'wers a ddysgwyd' am reolwyr o dan y dull ECM. Roedd y maes dysgu cyntaf yn ymwneud â'r berthynas rhwng arolygiaeth/oruchwyliaeth fewnol gan reolwyr a goruchwyliaeth glinigol allanol. Roedd hyn yn dangos - mewn dau Dîm Troseddau Ieuenctid - yr ystyriwyd bod gwrthdaro posibl rhwng pob un o'r strwythurau a risg o ddryswch ynghylch llinellau atebolrwydd. Er enghraifft, sut dylai achos fynd yn ei flaen os oedd ymarferydd yn cael cyngor gwahanol gan reolwyr mewnol a goruchwyliaeth allanol? Roedd y cyfweliadau'n dangos bod hyn yn bryder ar ddechrau'r treial yn bennaf wrth ddechrau cyflwyno'r dull yn raddol a/neu mewn perthynas ag achosion penodol lle'r oedd penderfyniadau'n gymhleth ac yn rhai risg uchel. Roedd cydsyniad cyffredinol bod hyn wedi'i ddatrys yn gyflym mewn diwrnod tîm ym mis Ebrill 2015 (Enhanced Case Management Project: Lessons from Practice, 2016). Daeth y ddogfen hon i'r casgliad mai Timau Troseddau Ieuenctid oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am wneud penderfyniadau. Rôl gynghori oedd gan oruchwyliaeth glinigol er, yn ddelfrydol, byddai yna ymgynghori â seicolegydd clinigol FACTS ac arweinydd y prosiect mewn unrhyw benderfyniadau arwyddocaol am achos. Roedd cytundeb efallai y byddai angen pwysleisio hyn mewn unrhyw dreial yn y dyfodol i fynd o

flaen unrhyw bryder yn hyn o beth ac y byddai angen adolygu canllawiau ymarfer i adlewyrchu'r protocol hwn.

3.60 Roedd yr ail faes dysgu yn ymwneud â'r cymorth a oedd ar gael i reolwyr ar gyfer gweithredu'r treial. Dywedodd y staff Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd eu cyfweld, y seicolegydd clinigol ac arweinydd y prosiect nad oedd pob rheolwr wedi gallu mynychu hyfforddiant ar y dull ECM. Y prif reswm am hyn oedd mai nifer cyfyngedig o leoedd oedd a bod rhaid i'r Timau Troseddau Ieuenctid flaenoriaethu pwy o blith y tîm staff fyddai'n mynychu. Dywedodd rhai ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid fod hyn wedi effeithio ar lefel ymrwymiad ac ansawdd trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r rheolwyr hynny a oedd heb gael hyfforddiant o gymharu â'r rhai oedd wedi cael hyfforddiant. Roedd rhai rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid o'r farn bod peidio â mynychu hyfforddiant yn lleihau, i ryw raddau, eu gallu i gyfrannu at weithredu'r treial yn ei gyfanrwydd a defnyddio'r dull ECM gyda phobl ifanc benodol. Roedd rhanddeiliaid yn gytûn ar y cyfan, pe bai'r dull ECM yn cael ei dreialu ymhellach, bod sicrhau y gallai rheolwyr gael gafael ar hyfforddiant yn bwysig. Byddai hyn yn galluogi ffocws ar sut gallai arolygiaeth rheolwyr weithio mewn achosion ECM ac edrych ar sut i ymgorffori'r dull ECM, sy'n pwysleisio anghenion gwaelodol a pherthnasoedd, ar yr un pryd â gweithio o fewn fframwaith y Safonau Cenedlaethol.

**Gwelliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc**

*Roedd pobl ifanc yn cytuno bod eu bywydau wedi gwella yn ystod y treial ECM*

3.61 Mewn ymatebion i'r holiadur, dywedodd pobl ifanc eu bod wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd yn eu bywydau a oedd yn drafferthus ar ddechrau eu gorchymyn erbyn diwedd eu hymgysylltiad â'r dull ECM[11]. Dywedent hefyd fod eu Tîm Troseddau Ieuenctid wedi gwneud 'gwahaniaeth cadarnhaol', ac roeddent yn ymddangos yn fwy hyderus eu bod yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

3.62 Roedd yr holiadur yn gofyn hefyd a oedd agweddau eraill ar eu bywyd[12] wedi 'gwella ychydig' neu 'gwella llawer'. Roedd mwyafrif y bobl ifanc a gwblhaodd yr holiadur yn sôn am

[11] Y materion a gafodd eu hystyried oedd: iechyd corfforol; iechyd meddwl/emosiynol; defnydd o gyffuriau; defnydd o alcohol, perthynas gyda ffrindiau; perthynas gyda'r teulu; addysg/hyfforddiant; swydd/gyrfa; cartref/llety; diogelwch; agweddau; a throseddu.

[12] Y meysydd a gafodd eu hystyried oedd: Dw i'n ceisio bod yn neis i bobl eraill. Dw i'n poeni am eu teimladau; Dw i'n garedig i blant iau; dw i'n mynd yn flin iawn ac yn aml yn colli fy nhymer; Dwi i fel arfer yn gwneud beth mae rhywun yn ddweud wrtha'i am wneud; Dw i'n helpu os oes rhywun wedi cael niwed, wedi ypsetio neu'n teimlo'n sâl; Dw i'n aml yn anhapus, yn ddigalon neu'n ddagreuol; Mae pob eraill fy oedran i yn fy hoffi ar y cyfan

Dw i'n aflonydd, dw i ddim yn gallu bod yn llonydd am hir; Dw i fel arfer yn rhannu gydag eraill (bwyd, gemau, pinau ysgrifennu ac ati); Mae gen i un ffrind da neu fwy; Dw i'n ymladd llawer. Dw i'n gallu gwneud i bobl eraill wneud beth dw i eisiau; dw i'n colli diddordeb yn hawdd, dw i'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio; Dw i'n aml yn gwirfoddoli i helpu eraill (rhieni, athrawon, plamt); Dw i'n meddwl cyn i mi wneud pethau

Dw i'n cyd-dynnu'n well gydag oedolion na phobl eraill fy oedran i; Dw i'n gwingo drwy'r amser ac yn ei chael hi'n anodd bod yn llonydd; Dw i'n nerfus mewn sefyllfaoedd newydd. Dw i'n colli hyder yn hawdd; Dw i'n gorffen y gwaith dwi'n ei

welliannau mewn perthynas â'r agweddau canlynol: 'Dw i'n ceisio bod yn neis i bobl eraill, dw i'n poeni am eu teimladau nhw' a 'Dw i'n fwy caredig i blant iau'. Soniodd pedwar person ifanc hefyd am welliannau mewn perthynas â: 'Dw i'n mynd yn flin iawn ac yn aml yn colli fy nhymer', 'Dw i fel arfer yn gwneud beth mae rhywun yn dweud wrtha'i am wneud', 'Dwi'n helpu os oes rhywun wedi cael niwed, wedi ypsetio neu'n teimlo'n sâl', 'Dw i'n anhapus, yn ddigalon neu'n ddagreuol yn aml', ac 'mae pobl eraill fy oedran i yn fy hoffi ar y cyfan'. Mewn perthynas â meysydd hyn o newid, dywedodd pob person ifanc a atebodd y cwestiwn hwn fod y gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid wedi gwneud 'cyfraniad cadarnhaol'.

3.63 Atgyfnerthwyd hyn ymhellach mewn cyfweliadau gyda phobl ifanc a soniodd am amrywiaeth o welliannau roeddent wedi'u cyflawni, e.e. llai o gamddefnyddio sylweddau, ymdrechion i leihau dyled ariannol, gwell sgiliau rheoli dicter a rheoli gwrthdaro, gwell trefniadau byw, a dim cysylltiad pellach â'r system cyfiawnder troseddol. Soniodd pob un o'r pedwar person ifanc am gyfraniad cadarnhaol y Timau Troseddau Ieuenctid o ran gwneud y cyflawniadau hyn, gydag un person ifanc yn dweud y byddai wedi bod yn y carchar heb gymorth ei weithiwr Timau Troseddau Ieuenctid.

*Cyfeiriodd staff Timau Troseddau Ieuenctid at welliannau ym mywydau pobl ifanc*

3.64 Cyfeiriodd pob aelod staff Timau Troseddau Ieuenctid at welliannau ym mywydau pobl ifanc, a hynny yn ystod cyfnod yr ymgysylltiad uniongyrchol â'r dull ECM ac wedi hynny. Roedd natur a maint y gwelliannau yn amrywio o un person ifanc i'r llall. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys:

- Gwelliannau yn eu hamgylchiadau bywyd. Nodwyd amrywiaeth eang o welliannau yn cynnwys: bod yn fwy cydnerth yng nghanol bywyd teuluol helbulus, mwy o hunanhyder, gallu rheoli dicter yn well, llety gwell neu fwy sefydlog, gwell sgiliau byw'n annibynnol, mwy cadarn yn emosiynol, mwy diogel o ganlyniad i orchymyn gofal a newid mewn trefniadau byw, gwell perthnasoedd personol, gwell iechyd meddwl.
- Dim achosion hysbys o dorri amodau gorchymyn yn ystod eu hymgysylltiad â'r Timau Troseddau Ieuenctid.
- Dim achosion hysbys o aildroseddu yn ystod eu hymgysylltiad â'r Timau Troseddau Ieuenctid.
- Dim achosion hysbys o aildroseddu ers eu hymgysylltiad â'r Timau Troseddau Ieuenctid.

3.65 Yn yr enghreifftiau hyn, dywedodd rhanddeiliaid Timau Troseddau Ieuenctid fod pobl ifanc yn parhau i wynebu anawsterau a risgiau parhaus. Dywedwyd bod y gwelliannau yn eu perthynas â phobl ifanc yn golygu bod ganddynt fwy hyder y byddai pobl ifanc yn datgelu

---

wneud. Mae fy sylw yn dda; Dw i'n cael llawer o bennau tost, bol tost neu gyfogi; Dw i ar fy mhen fy hun fel arfer. Dw i fel arfer yn chwarae ar fy mhen fy hun neu'n cadw at fy hunan; Dw i'n poeni llawer; Dw i'n aml yn cael fy nghyhuddo o ddweud celwydd neu dwyllo; Mae plant neu bobl ifanc eraill yn pigo arnaf neu yn fy mwlio; Dw i'n cymryd pethau sydd ddim yn eiddo i fi o gartref, yr ysgol neu rywle arall; Mae gen i lawer o ofnau, dw i'n cael ofn yn hawdd.

pryderon, anawsterau neu sefyllfaoedd a oedd yn gwaethygu a fyddai'n galluogi gwasanaethau i ymateb yn gynharach ac yn briodol.

3.66 Soniodd yr ymatebwyr Timau Troseddau Ieuenctid hefyd am bobl ifanc yn y treial a oedd wedi torri eu gorchymyn, wedi parhau i aildroseddu, yn cyflawni troseddau mwy difrifol wrth aildroseddu, a/neu yn y ddalfa (naill ai sefydliadau troseddwyr ifanc neu'r ystâd ddiogel i oedolion). Yn y sefyllfaoedd hyn, pwysleisiodd gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid fod y bobl ifanc hyn fel rheol yn wynebu problemau dwys, hir sefydledig, cymhleth a lluosog ac, o ganlyniad, roedd hi'n anodd helpu i greu a chynnal gwelliannau/newid. Serch hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn gallu nodi rhai gwelliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc o'r fath. Er enghraifft:

- gohirio rhagor o ganlyniadau gwael (e.e. cynyddu'r ffenest rhwng ymddygiad troseddu)
- cadw pobl ifanc yn fyw pan oedd risg uchel y byddent yn hunan-niweidio, yn cyflawni hunanladdiad neu'n marw o (er enghraifft) camddefnyddio sylweddau
- gwelliannau yn lefelau ymgysylltiad person ifanc, e.e. ansawdd y berthynas ag ymarferwyr, bod yn agored i weithio gydag asiantaethau, a pharodrwydd i drafod materion/pryderon
- gwelliannau dros dro ym mywyd person ifanc, e.e. llety gwell, perthnasoedd personol a theuluol gwell, a gwell aeddfedrwydd emosiynol
- cynyddu cyfraniad timau gwasanaethau plant, e.e. cychwyn cais am Orchymyn Gofal.

*Nododd y seicolegydd clinigol FACTS a'r arweinydd prosiect welliannau ym mywydau pobl ifanc hefyd*

3.67 Mewn cyfweliadau, nododd y seicolegydd clinogol FACTS a'r arweinydd prosiect dri phrif welliant ym mywydau pobl ifanc o dan y dull ECM.

- Gwella cryfder, sefydlogrwydd a natur adeiladol y berthynas rhwng pobl ifanc a gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid.
- Lleihau nifer yr achosion o dorri amodau yn ystod cyfnod y gorchymyn. Barnwyd mai'r gwelliannau mewn perthnasoedd a'r newidiadau mewn ymarfer a oedd yn deillio o'r treial ECM oedd yn gyfrifol am hyn.
- Lleihau, a dileu, aildroseddu. Nododd staff FACTS a YJB dystiolaeth anffurfiol o'r treial lle'r oedd pobl ifanc naill ai wedi stopio aildroseddu neu lle'r oeddent yn teimlo bod lefel yr aildroseddu - o ran amlder a/neu ddifrifoldeb - wedi gostwng.

3.68 Yn ogystal, roeddent yn cytuno bod y gwelliannau a gyflawnwyd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfranogiad uniongyrchol yn y treial, h.y., roedd gan bobl ifanc allu cynyddol i gynnal gwelliannau yn eu bywydau, heb yr angen am gymorth parhaus gan y Timau Troseddau Ieuenctid. Hefyd, lle'r oedd angen cymorth parhaus, roedd y bobl ifanc hyn yn ymgysylltu fwyfwy yn wirfoddol ac yn adeiladol gyda'r cymorth hwn. Mae'r astudiaethau achos (gweler Atodiad 2) yn rhoi enghreifftiau pellach o hyn.

*Mae adolygiadau ffeiliau achos yn awgrymu gwelliannau mewn troseddu ac mewn canlyniadau eraill*

3.69 Roedd yr adolygiad o ffeiliau achos yn dangos amrywiaeth o welliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc. Er enghraifft, ni chafwyd achosion o aildroseddu cofnodedig mewn saith o'r wyth achos. Wedi dweud hynny, nododd adolygiadau o ffeiliau achos un enghraifft o aildroseddu ac un achos o dorri amodau. Nodwyd perthynas well â gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn benodol mewn chwe achos, ond mewn dau achos gwelwyd bod hyn yn lleihau cyn amser tuag at ddiwedd y gorchymyn. Mewn saith achos nodwyd gwelliannau mewn amgylchiadau bywyd eraill, yn cynnwys presenoldeb mewn addysg, hunan-barch, defnydd o sylweddau, perthynas â'r teulu, ymgysylltiad ag asiantaethau eraill, pryder, y gallu i ymdrin â sefyllfaoedd anodd, llety, a risg o ddioddef trais domestig. Roedd y cyfnod lle gellid cyflawni gwelliannau yn amrywio o un achos i'r llall, gydag amrediad o fis Rhagfyr 2014 i fis Medi 2015.

*Mae data'r Pecyn Cymorth Aildroseddu yn cynnig darlun cymysg o risg, natur agored i niwed ac aildroseddu*

3.70 Mae data a ddarparwyd gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn y Pecyn Cymorth Aildroseddu yn cyflwyno darlun mwy cymysg mewn perthynas ag a wnaeth risg pobl ifanc o aildroseddu, risg o niwed difrifol, natur agored i niwed ac aildroseddu cofnodedig leihau pan oeddent yn cymryd rhan yn y treial. Roedd data 'cyfatebol' ar gael ar gyfer 14 person ifanc ynghylch risg aildroseddu a natur agored i niwed ac ar gyfer 10 person ifanc ynghylch risg o niwed difrifol. Mae'r data'n dangos bod sgôr risg y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi aros yr un fath ym mhob categori. Roedd nifer fach wedi lleihau eu risg (e.e. tri wedi lleihau eu risg o aildroseddu, dau wedi lleihau eu risg o niwed difrifol a thri wedi lleihau eu natur agored i niwed).

3.71 O'r 21 person ifanc yn y treial, nid oedd gan naw gofnod o fod wedi aildroseddu erbyn diwedd y treial ond roedd gan 12 gofnod o aildroseddu. O'r rheini a oedd wedi aildroseddu, roedd tri wedi cyflawni trosedd 'lai difrifol', roedd pedwar wedi cyflawni trosedd 'yr un mor ddifrifol' â throseddau blaenorol, ac roedd pump wedi cyflawni trosedd 'fwy difrifol'[13]. Ar gyfer y bobl ifanc hynny na wnaeth aildroseddu tra'u bod yn cymryd rhan yn y treial, y cyfnod cyfartalog rhwng dechrau'r treial ac aildroseddu oedd 4.7 mis. Yr ystod oedd 0.6 mis i 13.3 mis (Pecyn Cymorth Aildroseddu).

---

[13] Wrth ddod i'r casgliadau hyn, byddai rheolwyr achos Timau Troseddau Ieuenctid yn cael eu harwain gan eu crebwyll proffesiynol a'r sgoriau difrifoldeb sy'n defnyddio graddfa o 1 i 18 i gategoreiddio pa mor ddifrifol yw troseddau. Mae difrifoldeb yn seiliedig ar ddata canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc 10-17 oed e.g. tebygolrwydd y bydd y drosedd yn arwain at ddirwy, rhyddhad, goruchwyliaeth yn y gymuned a chyfnod yn y ddalfa.

*Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cytuno y gellid priodoli, i ryw raddau, unrhyw welliannau ym mywydau pobl ifanc i'r dull ECM*

3.72 Roedd pawb a gafodd eu cyfweld yn ofalus rhag tynnu casgliadau trosfwaol am i ba raddau y gellid priodoli unrhyw welliannau ym mywydau pobl ifanc yn uniongyrchol i'r dull ECM. Mae rhai o'r pryderon a godwyd wedi'u manylu isod.

- Roedd nifer cymharol fach o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y treial ac, o ganlyniad, roedd angen gofal wrth dynnu casgliadau o sampl bach. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid a oedd wedi rheoli nifer fach o achosion (e.e. un neu ddau) o dan y dull ECM. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cael treial ehangach i gynyddu'r sail dystiolaeth ymhellach.
- Roedd hi'n anodd i lawer o randdeiliaid nodi'r 'beth os' , h.y. pa newidiadau fyddai wedi cael eu cyflawni pe na bai'r person ifanc wedi bod yn rhan o'r dull ECM. Fel rhan o hyn, tynnodd rhai gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid sylw at dystiolaeth ymchwil sy'n dangos cysylltiad rhwng lleihad yn y tebygolrwydd o aildroseddu ac oedran (gweler, er enghraifft, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a YJB, 2015). O ganlyniad, dadleuent y gallai rhywfaint o'r effaith hon gael ei phriodoli i berson ifanc yn aeddfedu dros amser.
- Cafodd ystod o fentrau eraill eu gweithredu yn y Timau Troseddau Ieuenctid a phartneriaid ochr yn ochr â'r treial ECM a allai effeithio ar newidiadau. Roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys cyflwyno AssetPlus, effaith Deddf Cymorth Cyfreithiol Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, gostyngiad mewn cyfraddau troseddu, a phwysau ariannol sy'n wynebu partneriaid, yn enwedig timau gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Yn sgil hyn, roedd nifer fach o randdeiliaid yn cefnogi'r syniad y dylai unrhyw werthusiadau yn y dyfodol gynnwys grŵp rheoli neu gymharu fel y gellid priodoli unrhyw newidiadau yn fwy uniongyrchol.

3.73 Wedi dweud hynny, roedd rhanddeiliaid, ar y cyfan, yn ffyddiog am botensial y dull ECM i gyfrannu'n uniongyrchol at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc. Roeddent yn cyfeirio'n ôl at rai o'r newidiadau cadarnhaol yr oedd y treial wedi helpu i'w cyflwyno, e.e. gwelliannau mewn perthnasoedd, newidiadau mewn ymarfer, mwy o ffocws ar anghenion gwaelodol. Roeddent yn cynnig, yn ôl eu profiad nhw, y byddent yn disgwyl i welliannau o'r fath arwain at effeithiau dilynol cadarnhaol ar ganlyniadau pobl ifanc ac i helpu i leihau cyfraddau aildroseddu.

**Barn ar gyflwyno'r dull yn y dyfodol**

*Roedd cefnogaeth unfrydol ar gyfer cyflwyno'r dull ECM*

3.74 Roedd pob rhanddeiliad yn cefnogi cyflwyno'r dull ECM. Roeddent yn cytuno bod tystiolaeth o'r treial yn ddigon cadarnhaol i gefnogi buddsoddi rhagor o amser ac adnoddau i weithredu'r dull mewn ardaloedd eraill. Mynegwyd hyn fel cytundeb i weithredu'r dull yn ehangach ar unwaith yn hytrach na'r angen i'w dreialu neu brofi ymhellach. Er enghraifft, roedd lleiafrif y rhanddeiliaid yn teimlo bod natur y cohort (bach, cymhleth, anghenion gwahanol iawn) yn golygu na fyddai'n werth chweil buddsoddi rhagor o amser mewn ceisio

deall i ba raddau y gellid priodoli unrhyw welliannau i'r dull ECM yn uniongyrchol (e.e. drwy grŵp rheoli neu dreial ar hap). Yn hytrach, roeddent yn ffyddiog bod y dull ECM yn cyd-fynd â'u dealltwriaeth nhw o 'ymarfer cywir' ac yn cael y math o effaith sydd ei hangen i gefnogi cyflwyno'r dull ar unwaith.

3.75 Nododd y rhai a gafodd eu cyfweld feysydd penodol lle'r oedd angen rhagor o waith pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gyflwyno'r dull ECM. Mae manylion y rhain isod.

- **Capasiti FACTS.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid fanteision cael mynediad at arbenigedd allanol ac ansawdd uchel o'r tîm FACTS. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod hefyd y byddai gweithredu'r model hwn ledled Cymru yn arwain at oblygiadau sylweddol i gapasiti'r tîm hwn. Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn ystyried cyfraniad FACTS yn elfen hanfodol ac allweddol o'r dull ECM, ac ni ddylid ei wanhau neu ei ad-drefnu fel rhan o unrhyw waith cyflwyno.

- **Hyfforddiant ar gyfer rheolwyr.** Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn cytuno y dylai hyfforddiant ar gyfer rheolwyr gael ei gynnwys fel elfen allweddol o unrhyw waith cyflwyno.

- **Ymrwymiad gan yr arolygiaethau.** Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld o Dimau Troseddau Ieuenctid a FACTS yn awyddus i gael sicrwydd pe bai'r dull ECM yn dod yn rhan o ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid prif ffrwd, y byddai hyn yn cael ei gefnogi gan yr arolygiaethau perthnasol.

- **Cymhwysedd ehangach.** Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld - o blith Timau Troseddau Ieuenctid, FACTS ac arweinydd y prosiect - yn cefnogi ehangu'r meini prawf cymhwysedd er mwyn ehangu'r cohort o bobl ifanc a allai fod yn gymwys i gymryd rhan yn y dull ECM ac elwa arno. Dywedodd rhanddeiliaid fod nifer fawr o bobl ifanc a oedd yn cael cysylltiad â'r Timau Troseddau Ieuenctid wedi wynebu problemau cymhleth iawn a thrawma, ond nad oeddent, hyd yma, wedi troseddu digon neu wedi cael dedfryd digon hir. Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod hyn yn golygu bod y bobl ifanc hyn yn colli cyfle i gymryd rhan mewn dull a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i'w bywydau. Nododd y rhanddeiliaid hyn mai mantais ychwanegol dull o'r fath oedd y byddai mwy o bobl ifanc a mwy o ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid (ac asiantaethau eraill) yn gweld y dull ECM fel y ffordd 'arferol' o weithio gyda phobl ifanc agored i niwed sydd wedi troseddu.

- **Perthnasedd i asiantaethau eraill.** Roedd mwyafrif y rhai a gafodd eu cyfweld yn cynnig y dylai'r dull ECM fael ei raeadru i ymarferwyr mewn asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed sydd wedi troseddu er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Barnwyd bod dwy brif fantais i hyn, h.y. y gallai gynyddu lefel ymrwymiad asiantaethau eraill i'r dull ECM (yn enwedig, er enghraifft, mynychu cyfarfodydd creu achos), ac y gallai hyrwyddo dull cyson o ddiwallu anghenion pobl ifanc ar draws asiantaethau. Mewn perthynas â'r fantais olaf hon, nododd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld y cyfnod cymharol fyr roedd y Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc (h.y. hyd eu gorchymyn) ac yn aml fod gan asiantaethau eraill

berthynas fwy hirdymor gyda phobl ifanc ag anghenion cymhleth, e.e. gwasanaethau plant.

3.76 Er bod cefnogaeth uchel ac eang i'r dull ECM, roedd rhai aelodau staff Timau Troseddau Ieuenctid yn pwysleisio pwysigrwydd bod Timau Troseddau Ieuenctid yn cael mynediad at amrywiaeth o ddulliau o weithio gyda phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Ar gyfer y rhanddeiliaid hyn, byddai'r dull ECM yn un o'r adnoddau posibl y gellid eu defnyddio gyda phobl ifanc. Roedd enghreifftiau a roddwyd yn ymwneud â phobl ifanc gydag ymddygiad sy'n ymateb yn allanol sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, e.e. ymddygiad rhywiol niweidiol a/neu drais corfforol. Yn yr achosion hyn, roedd staff yn teimlo y gallent fod angen mynediad at fframweithiau asesu, ymyrryd ac adolygu cyfannol, yn hytrach na'r dull ECM. Wedi dweud hynny, ni chyfeiriwyd at fodelau amgen penodol yn ystod cyfweliadau.

## 4. Trafodaeth

### Gweithredu'r dull ECM

*Roedd lefel uchel o fod yn driw i'w dull ECM*

4.1 Roedd cryn gysondeb ar draws y tri Thîm Troseddau Ieuenctid o ran gweithredu'r treial, effeithiolrwydd y gweithredu hwn, a bod yn driw i'r dull ECM gwreiddiol. Ychydig iawn o newidiadau i ffurf a diwyg y dull ECM oedd eu hangen wrth ei weithredu ar lawr gwlad. Roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno bod staff yn gweithredu'r dull ECM yn unol â'r weledigaeth wreiddiol ac fel y disgrifiwyd mewn llenyddiaeth ac mewn hyfforddiant, ac roedd yr adolygiadau ffeiliau achos a gyflawnwyd gan y tîm gwerthuso yn cadarnhau hynny. Y meini prawf cymhwysedd oedd yr un agweddau a oedd angen amrywio'n sylweddol o'r dull ECM gwreiddiol.

4.2 Roedd y gwerthusiad yn nodi tair prif agwedd lle'r oedd gwahaniaethau amlwg yn y gwaith gweithredu rhwng y Timau Troseddau Ieuenctid: defnydd o'r dull, y proffil angen, a'r angen am adnoddau ychwanegol. Mae'r rhain yn cael eu trafod ymhellach isod.

*Gwahaniaethau o ran defnydd o'r dull*

4.3 Mae'r agwedd gyntaf yn ymwneud â'r gwahaniaethau rhwng y Timau Troseddau Ieuenctid o ran sicrhau bod y nifer targed o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y treial. Llwyddodd dau Dîm Troseddau Ieuenctid i gwrdd â'u cwota, ac roedd y trydydd Tîm Troseddau Ieuenctid (Timau Troseddau Ieuenctid A) wedi recriwtio pedwar person ifanc yn erbyn targed o 11.

4.4 Mae nifer o ddamcaniaethau a allai egluro hyn. Er enghraifft, gallai'r trydydd Tîm Troseddau Ieuenctid fod â llai o bobl ifanc cymwys a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn y treial; gallai'r Tîm Troseddau Ieuenctid fod â llai o ymrwymiad i'r treial yn gyffredinol; a/neu gallai meini prawf cymhwysedd uwch fod ar waith yn y Tîm hwn. Nid yw'r gwerthusiad yn rhoi llawer o dystiolaeth i gefnogi'r ddwy ddamcaniaeth gyntaf. Mae peth tystiolaeth i awgrymu y gallai nifer y bobl ifanc cymwys yn Nhîm Troseddau Ieuenctid A fod wedi cael ei effeithio gan fwy o ostyngiad dros amser mewn penderfyniadau cyn-llys na'r ddau Dîm Troseddau Ieuenctid arall sydd felly'n cynyddu faint o amser sydd ei angen ar bobl ifanc i greu hanes o droseddu cyson. O ran y bedwaredd ddamcaniaeth, roedd gan bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y treial o Dîm Troseddau Ieuenctid A anghenion uwch ar ddwy agwedd, h.y. nifer cyfartalog uwch o droseddau blaenorol ac roedd pob un ohonynt yn destun Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid, yn hytrach na chyfuniad o'r rhain a Gorchmynion Atgyfeirio. Gallai'r ddau ffactor hyn esbonio rhywfaint o'r amrywiad yn y defnydd o'r dull. Deuwn i'r casgliad, fodd bynnag, nad yw gwahaniaethau o ran defnydd o'r dull yn arwydd o bryderon am ddilysrwydd neu berthnasedd y dull ECM.

*Gwahaniaethau o ran lefelau angen*

4.5 Roedd data i'r Pecyn Cymorth Aildroseddu yn dangos bod gwahaniaethau rhwng Timau Troseddau Ieuenctid ym mhroffil y bobl ifanc a gymerodd ran yn y treial. Er enghraifft,

cohort Timau Troseddau Ieuenctid C oedd yn wynebu'r nifer cyfartalog uchaf o broblemau a'r proffil risg uchaf o ran aildroseddu, hunan-niwed a bod yn agored i niwed. Ar y llaw arall, cohort Timau Troseddau Ieuenctid B oedd isaf ar gyfer pob un o'r agweddau hyn. Nid oes tystiolaeth i awgrymu mai gwahaniaethau yn y ffordd mae'r Timau Troseddau Ieuenctid wedi cymryd rhan yn y treial neu unrhyw wendidau yn y dull ECM sy'n gyfrifol am hyn. Yn hytrach, mae'n fwy tebygol o ddeillio o'r angen gwaelodol gwahanol rhwng y tri Thîm Troseddau Ieuenctid mewn perthynas â phroffil pobl ifanc sydd â hanes o droseddu'n gyson ac anghenion cymhleth.

*Gwahaniaethau yn yr angen am adnoddau ychwanegol*

4.6 Roedd yna rai gwahaniaethau yn yr angen am gapasiti ychwanegol er mwyn gweithredu'r treial. Dywedodd pob Tîm Troseddau Ieuenctid, ar y cyfan, fod modd gweithredu'r dull ECM gyda'u hadnoddau/capasiti cyfredol. Roedd rhai gwahaniaethau o ran sut roedd Timau Troseddau Ieuenctid angen trefnu eu hunain yn fewnol er mwyn cymryd rhan yn y treial. Er enghraifft, roedd angen i Dimau Troseddau Ieuenctid B a C fod yn fwy rhagweithiol wrth ddyrannu llwythi achosion i reolwyr achos fel y gellid cwblhau'r gwaith gyda phobl ifanc ar y treial ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill. Ar y llaw arall, dywedodd y trydydd Tîm Troseddau Ieuenctid fod modd cymryd rhan yn y treial heb waith rheoli ychwanegol, gyda'r pwyslais ar wneud gwaith gwahanol yn hytrach na mwy o waith gyda phobl ifanc.14.

4.7 Deuwn i'r casgliadau y gallai rhai agweddau ar y dull ECM greu baich ychwanegol ar adegau penodol wrth weithredu'r dull a/neu reoli'r achos, e.e. hyfforddiant ar gyfer staff Timau Troseddau Ieuenctid, cymryd rhan yn y cyfarfodydd creu achos, a mynychu goruchwyliaeth glinigol allanol. Barn y rhanddeiliaid oedd bod pob un o'r rhain yn ddefnydd da ac effeithiol o amser. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwelliannau yn y berthynas â phobl ifanc yn gallu arwain at fwy o ymgysylltiad â'r Timau Troseddau Ieuenctid ar amodau eu gorchymyn. Gallai hyn ofyn am fwy o amser gan weithwyr Timau Troseddau Ieuenctid ond, yn ein barn i a barn rhanddeiliaid, dylai hyn gael ei wrthbwyso gan yr amser sy'n cael ei arbed yn sgil lleihad yn nifer y bobl ifanc sydd ddim yn mynychu eu hapwyntiadau, llai o ad-drefnu a llai o faich gweinyddol. Yn olaf, gallai capasiti cyffredinol Timau Troseddau Ieuenctid i integreiddio'r dull ECM yn ei ymarfer cyfredol gael ei effeithio gan y llwyth achosion sydd gan bob gweithiwr yn barod, h.y. mae'n bosibl y bydd angen i Dimau Troseddau Ieuenctid â chyfraddau uwch fod â rheolaeth fwy rhagweithiol i weithredu'r dull, yn ogystal â'r amser sydd ei angen i gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol fel y cyfarfod creu achos, yr adolygiadau dilynol a goruchwyliaeth glinigol.

**Elfennau'r dull ECM a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf o ran sicrhau cyfranogiad pobl ifanc**

4.8 Roedd lefelau diffyg ymgysylltu a phobl ifanc yn gadael y treial yn gynnar ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yn isel. Dywedodd rhanddeiliaid Timau Troseddau Ieuenctid ei bod hi'n

[14] Er bod nifer y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y treial fel cyfran o gyfanswm y llwythi achosion yn is yn yr Timau Troseddau Ieuenctid hwn.

gymharol hawdd sicrhau cyfranogiad pobl ifanc a bod cyfraddau gadael yn isel. Os oedd pobl ifanc yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yn y treial, y prif reswm am hynny oedd eu bod wedi dechrau dedfryd o garchar.

4.9 O ganlyniad, mae'n anodd nodi unrhyw nodweddion allweddol y dull ECM sy'n gwneud y gwahaniaeth cymharol mwyaf i gynyddu ymgysylltiad. Dywedodd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid fod ffocws ar angen gwaelodol ac ar feithrin perthynas gyda phobl ifanc, yn eu barn nhw, yn nodweddion allweddol o'r dull ECM. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r nodweddion hyn fod yn arbennig o ddylanwadol o ran sicrhau cyfranogiad pobl ifanc yn barhaus.

4.10 Yn fwy ehangach, pwysleisiodd staff Timau Troseddau Ieuenctid a oedd wedi treialu'r dull fod holl elfennau allweddol y dull ECM yn hollbwysig i'w lwyddiant ac y byddai 'cyfuno a chyfateb' elfennau yn effeithio ar effeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys dull sydd:

- yn cael ei lywio gan y Model Gwella o Drawma a'r angen i fynd i'r afael ag anghenion gwaelodol
- yn cynnwys gwaith creu achos amlasianataeth
- yn cael ei hwyluso gan uwch seicolegydd clinigol allanol
- yn cynnwys mynediad at oruchwyliaeth glinigol, drwy law seicolegydd clinigol.

4.11 Yn ein barn ni, byddai'r lefelau uchel o gysondeb o ran gweithredu a bod yn driw i'r dull ECM gwreiddiol yn cefnogi'r casgliad hwn.

**Canlyniadau ar gyfer pobl ifanc**

4.12 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial wedi cyflawni amrywiaeth o welliannau ar draws sawl agwedd, er enghraifft, ansawdd bywyd; ansawdd eu perthynas ag asiantaethau, a manteision i gymdeithas, e.e. llai o aildroseddu a lleihad yn nifrifoldeb unrhyw aildroseddu. Nodwyd y gwelliannau hyn gan yr holl randdeiliaid a oedd yn rhan o'r treial, h.y. ymarferwyr Timau Troseddau Ieuenctid, rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid, seicolegydd clinigol FACTS, arweinydd y prosiect a phobl ifanc.

4.13 Fel rhan o'r adolygiadau o ffeiliau achos, roedd y tîm gwerthuso yn ffurfio barn ar sut roedd ymarfer a gofnodwyd o dan y dull ECM yn cymharu ag ymarfer anecdotaidd a gofnodwyd mewn Timau Troseddau Ieuenctid eraill a welwyd fel rhan o aseiniadau eraill. Mae'r adolygiadau hyn yn arwain i ni gytuno ar y canlynol:

- Bod tystiolaeth fod y dull ECM yn helpu i feithrin gwell perthynas ac ymddiriedaeth gyda phobl ifanc a bod hyn wedyn yn helpu i wella ymgysylltiad a chydymffurfiaeth ag ymyriadau.
- Mae tystiolaeth o ddulliau mwy hyblyg ac sydd wedi'u teilwra'n fwy helaeth o weithio gyda phobl ifanc a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'u problemau/anghenion gyda llai o ffocws ar wneud gwaith 'safonol' sy'n canolbwyntio ar droseddu.

- Mewn nifer fach o achosion, roedd y problemau oedd yn wynebu pobl ifanc wedi ennill eu plwyf i'r fath raddau fel bod hyd yn oed gwelliannau bach yn y berthynas rhwng pobl ifanc a'u gweithiwr Timau Troseddau Ieuenctid yn cynrychioli, yn ein barn ni, gyflawniadau sylweddol y dull ECM.

4.14 O ganlyniad, cytunwn fod y dull ECM yn helpu i greu newidiadau o ran ymarfer ac, yn sgil hynny, gwelliannau ym mywydau pobl ifanc.

# 5. Casgliadau

*Gweithredu'r dull ECM yn ehangach*

5.1 Rydym yn argymell gweithredu a threialu'r dull ECM yn barhaus. Caiff y rhesymau am hyn eu trafod isod.

- Roedd cryn gefnogaeth i'r dull ECM – yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol – gan yr holl randdeiliaid a fu'n rhan o'r treial.
- Roedd cefnogaeth unfrydol gan randdeiliaid ar gyfer cyflwyno'r dull ECM. Mae hyn yn awgrymu bod y dull ECM yn gweithio, ei fod yn briodol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, a'i bod yn debygol y bydd llawer iawn o Dimau Troseddau Ieuenctid eraill ledled Cymru yn ymrwymo i'r dull.
- Roedd lefel uchel o fod yn driw i'r dull ECM (gan ystyried y newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd) ac roedd hyn yn gyson ar draws y Timau Troseddau Ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu bod modd cymhwyso'r model TRM a'r dull ECM mewn ffordd gyson ar draws Timau Troseddau Ieuenctid sydd ag amgylchiadau lleol a phroffiliau angen gwahanol.
- Roedd data ansoddol gan yr holl randdeiliaid a oedd yn rhan o'r gwerthusiad yn dangos gwelliannau ym mywydau pobl ifanc. Ategwyd hyn ymhellach gan brofiad y tîm gwerthuso ei hun yn ystod adolygiadau ffeiliau achos a oedd yn dangos bod ymarfer o dan y dull ECM yn wahanol i ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid 'arferol' ac yn arwain at welliannau mewn perthnasoedd, lefelau uwch o ymgysylltiad a chanlyniadau gwella ar gyfer pobl ifanc.

5.2 Wedi dweud hynny, mae cadernid y dystiolaeth sydd ar gael am effaith y dull ECM ar bobl ifanc yn cael ei ddatblygu o hyd ac nid yw gwerth am arian y dull ECM wedi cael ei roi ar brawf. Rydym yn argymell y bydd unrhyw waith parhaus i weithredu'r dull ECM yn cael ei werthuso ymhellach.

*Gwersi a ddysgwyd am y dull a'r fethodoleg gwerthuso*

5.3 Wrth gynnal y gwerthusiad, dysgwyd nifer o wersi mewn perthynas â'r fethodoleg.

- **Cydsyniad gwybodus.** Roedd nifer y bobl ifanc a'u teuluoedd a gytunodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad yn is na'r disgwyl. O ystyried natur y gwerthusiad, credwn fod y dull a ddewiswyd ar gyfer cydsyniad gwybodus yn gywir, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc yn gorfod dewis cymryd rhan. O ganlyniad, ni fyddem yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r dull hwn er mwyn cynyddu cyfraddau ymateb mewn unrhyw werthusiad yn y dyfodol. Un diwygiad posibl sy'n werth ei archwilio yn ein barn ni yw cynnwys gofyn am ganiatâd yn y gwerthusiad yn y broses i sicrhau cydsyniad i gymryd rhan yn y dull ECM yn gyffredinol. O ystyried y gyfran uchel o bobl ifanc a gytunodd i gymryd rhan yn y treial, teimlwn y gallai hyn helpu i hybu cydsyniad i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Wedi dweud hynny, rydym yn awgrymu'r canlynol: (1) dylid monitro cyfraddau ymateb yn barhaus i i sicrhau nad yw cynnwys cydsyniad gwybodus i gymryd rhan yn y gwerthusiad yn lleihau cydsyniad pobl ifanc i gymryd rhan yn y treial; a (2) ni ddylai peidio â chytuno i

gymryd rhan yn y gwerthusiad ei eithrio rhag cymryd rhan yn y treial. Daw'r awgrym olaf hwn yn sgil y ffaith, hyd yn oed os nad yw pobl ifanc eu hunain am gymryd rhan yn y gwerthusiad, y gellir casglu llawer o dystiolaeth ddefnyddiol gan randdeiliaid eraill a fu'n gweithio gyda'r person ifanc hwnnw (e.e. gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid).

- **Targedau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.** Yn y treial, dim ond dau brif darged a gafodd eu gosod, h.y. nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan; a meini prawf cymhwysedd. Rydym yn argymell bod unrhyw werthusiad o'r dull ECM yn y dyfodol yn cael ei lywio gan fwy o dargedau. Gallent gynnwys cyfraddau defnyddio'r dull, cyfraddau gadael, a gwelliannau a gyflawnwyd, e.e. newidiadau i gyfraddau aildroseddu. Byddai hyn yn golygu bod modd mesur llwyddiant cymharol y dull ECM.
- **Canfod priodoledd**. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rywfaint o dystiolaeth ansoddol o gyfweliadau am i ba raddau y gellir priodoli unrhyw welliannau i'r dull ECM. Mae'n nodi bod yna nifer fawr o fentrau eraill yn cael eu cynnal mewn Timau Troseddau Ieuenctid (ac asiantaethau eraill) a allai fod yn cyfrannu at welliannau, gan ei gwneud hi'n anodd felly i nodi cyfraniad penodol y dull ECM. Rydym yn argymell bod unrhyw werthusiadau yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â hyn fel y gall rhanddeiliaid fod yn fwy ffyddiog fod buddsoddi yn y dull ECM yn werth chweil. Y ffordd orau o wneud hyn fyddai drwy gyfrwng hap-brawf gyda rheolydd hydredol neu gynllun lled-arbrofol lle mae cyflawniadau yn cael eu cymharu â'r grŵp rheolydd (e.e. o fewn Timau Troseddau Ieuenctid, rhwng Timau Troseddau Ieuenctid, cyfoes neu ôl-weithredol). I sicrhau cadernid, byddai angen i hwn fod yn sampl digon mawr i alluogi cynnal profion o arwyddocâd ystadegau. Gellid amcangyfrif maint y sampl sydd ei angen drwy gynnal dadansoddiad pŵer a fyddai, yn ei dro, yn gofyn am ddarlun clir o hyd a lled y newid a ddymunir gan y dull ECM.
- **Pennu gwerth am arian.** Nid oedd asesiad gwerth am arian yn rhan o'r cylch gwaith ar gyfer y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch cyflwyno yn cael eu llywio gan ddadansoddiad ariannol. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd bod unrhyw wariant ychwanegol (naill ai o ran cyllid neu ddefnydd o amser Timau Troseddau Ieuenctid) yn werth chweil. Byddai cynnwys grŵp rheolydd (gweler uchod) yn helpu i gyflawni hyn. Byddai hefyd angen i'r gwerthusiad gasglu data ar gyllid ychwanegol a roddir i FACTS er mwyn gweithredu'r dull ac unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrennir i Dimau Troseddau Ieuenctid. Yn ogystal, rydym yn awgrymu bod gwybodaeth yn cael ei chasglu hefyd am faint o amser sydd ei angen i weithio gyda phobl ifanc o dan y dull ECM o gymharu ag ymarfer cyfredol.

*Addasiadau sydd eu hangen*

5.4 Rydym yn argymell bod pedwar prif addasiad i'r dull ECM yn cael eu hystyried yn y tymor byr i'r tymor canolig. Dylid ystyried pumed addasiad yn y tymor hwy.

5.5 Mae'r cyntaf yn ymwneud â hyfforddiant ar gyfer rheolwyr. Nid oedd pob rheolwr Timau Troseddau Ieuenctid yn gallu mynychu hyfforddiant ar y dull ECM ac fe wnaeth hyn effeithio ar y cyfraniad y gallai rheolwyr ei wneud o fewn y treial. Cytunwn fod gan reolwyr gyfraniad

pwysig i’w wneud yn y dull ECM, e.e. sicrhau ansawdd, arolygiaeth gan reolwyr, goruchwyliaeth, cyfraniadau at gyfarfodydd creu achos, rhoi canllawiau i ymarferwyr. O ganlyniad, mae gwybodaeth am y dull ac ymrwymiad iddo ymhlith rheolwyr yn hanfodol i’w lwyddiant. Rydym yn argymell edrych ar ddatblygu hyfforddiant penodol ar gyfer rheolwyr. Byddai hyn yn creu gofod pwrpasol ar gyfer ystyried materion rheoli a goruchwylio yn y dull ECM.

5.6 Mae’r ail yn ymwneud â’r ffordd y cofnodir achosion o dan y dull ECM. Daethpwyd ar draws rhai heriau wrth gofnodi ymarfer o dan y dull ECM wrth ddefnyddio systemau cofnodi achosion cyfredol. Rydym yn argymell bod canllawiau ymarfer a hyfforddiant yn cael eu diwygio i gynnwys gwybodaeth am y ffordd orau o gofnodi ymarfer, yn enwedig mewn perthynas â diben pob apwyntiad/cyfarfod gyda pherson ifanc a’r canlyniadau a gyflawnwyd. Yn ogystal, rydym yn argymell bod canllawiau ymarfer yn cael eu diweddaru i sicrhau bod rhyw fath o nodyn crynodeb yn cael ei gynnwys mewn achosion perthnasol am benderfyniadau a wnaed neu ganlyniadau goruchwyliaeth glinigol. Bydd hyn yn sicrhau llwybr archwilio llawn mewn perthynas â phenderfyniadau.

5.7 Mae’r trydydd addasiad yn ymwneud â pha mor gymwys yw’r dull ECM i asiantaethau eraill y tu hwnt i’r Timau Troseddau Ieuenctid. Cytunwn y gallai ymestyn y dull ECM i ymarferwyr eraill mewn asiantaethau eraill hybu dull mwy cydlynol a chyfannol o weithio gyda phobl ifanc, y mae nifer ohonynt mewn cysylltiad parhaus ag asiantaethau ar ôl cwblhau amodau’r llys. Yn ein barn ni, mae manteision hefyd i ystyried a yw’n gymwys yn yr ystâd ddiogel (i bobl ifanc ac oedolion) gan y byddai hyn yn hyrwyddo parhad a chysondeb o ran cymorth mewn achosion lle mae ymddygiad troseddu yn gwaethygu.

5.8 Mae’r bedwaredd ystyriaeth yn ymwneud â chapasiti’r darparwr seicoleg glinigol. Yn y treial, FACTS oedd yn gyfrifol am y ddarpariaeth hon. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i sicrhau, pe bai’r dull yn cael ei gyflwyno’n ehangach, bod gan y darparwr ddigon o gapasiti i barhau i ddarparu cymorth o ansawdd uchel mewn modd amserol. O ystyried pwysigrwydd y mewnbwn seicolegol yn y dull ECM, rydym yn cytuno y dylai’r mewnbwn hwn cael ei ddiogelu a’i gynyddu’n briodol i adlewyrchu unrhyw gyflwyno ehangach.

5.9 Yn olaf, mae cefnogaeth gyffredinol ar gyfer ehangu ymhellach y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymryd rhan yn y dull ECM i gynnwys pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder ieuenctid sydd ag anghenion cymhleth ond sydd heb hanes o droseddu cyson. Argymhellwn fod hyn yn cael ei ystyried. Cryfder y dull ECM yw ei allu i wella’r berthynas waith â phobl ifanc a chanolbwyntio ar anghenion gwaelodol (sydd, yn ei dro, yn debygol o gael effaith fwy parhaol ar droseddu a diogelwch y cyhoedd). Byddai’r nodweddion hyn o fudd i gyfran fawr o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, nid dim ond y rheini â hanes o droseddu cyson. Wedi dweud hynny, awgrymwn mai rhywbeth i’w ystyried yn y tymor hwy yw hwn, nid cynllun ar gyfer y presennol. Mae hyn oherwydd, yn ei barn ni, mae angen rhagor o ymchwil i ddeall i ba raddau mae’r dull ECM yn cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer pobl ifanc yn y grŵp targed presennol ac yn cynrychioli gwerth am arian. Ar ôl pennu hyn, byddai tystiolaeth gryfach o blaid cyflwyno’r dull yn ehangach.

## Cyfeiriadau

Berlowitz, S. (2011). I think I must have been born bad in *Emotional wellbeing and mental health of children and young people in the youth justice system*. Swyddfa'r Comisiynydd Plant (Lloegr) Mehefin 2011

Y Comisiwn Ansawdd Gofal. (2013). *Registration under the Health and Social Care Act 2008: Supporting information and guidance: Supporting effective clinical supervision.* Ar gael o: https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/documents/20130625_800734_v1_00_supporting_information-effective_clinical_supervision_for_publication.pdf [Cyrchwyd 1 Mawrth 2016]

Crow, I & Semmens, N. (2006). *Researching Criminology.* Maidenhead: McGraw-Hill Open University Press

Hart, D. (2012). *National Association for Youth Justice Briefing: Legal Aid Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012: implications for children.* Ar gael o: http://thenayj.org.uk/wp-content/files_mf/briefinglaspo.pdf [Cyrchwyd 26 Chwefror 2016]

Maslow, A.H. (1943). A Theory of Human Motivation in *Psychological Review* 50(4) 370-96

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. (2015). *National Analysis of Reoffending Data, for those aged 10-17*: Statistics bulletin

Nacro Cymru. (2009). *The role of mental health practitioners in youth offending teams in Wales*

Skuse, T. & Matthew, J. (2015). The Trauma Recovery Model: Sequencing Youth Justice Interventions For Young People With Complex Needs. *Prison Service Journal.* 220 (Gorffennaf 2015) tt16-25

Trauma Recovery Model.com. (2016). TRM. Ar gael o: http://www.traumarecoverymodel.com/?page_id=21 [Cyrchwyd 26 Chwefror 2016]

University of Cincinnati Corrections Institute. (Dim dyddiad). *Program Evaluation*. Ar gael o: https://www.uc.edu/corrections/services/program_evaluation.html. [Cyrchwyd 25 February 2016]

Llywodraeth Cymru/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014) *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Strategaeth Llywodraeth*

*Cymru / y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni* (Gorffennaf 2014). Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2015a) *Sequencing Youth Justice Interventions For Young People With Complex Needs.* Heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru. (2015b). *Specification for Research on the YJB/Welsh Government Enhanced Case Management Practice Project*. Heb ei gyhoeddi.

Sefydliad Iechyd y Byd. (2016) *Informed Consent Templates*. Ar gael o http://www.who.int/rpc/research_ethics/informed_consent/en/ [Cyrchwyd 25 Chwefror 2016]

Youth in Mind. (Dim dyddiad). *SDQ: Information for researchers and professionals about the Strengths and Difficulties Questionnaire*. Ar gael o: http://www.sdqinfo.com/ [Cyrchwyd 25 Chwefror 2016]

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2014a). *AssetPlus: assessment and planning in the youth justice system.* Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/assetplus-assessment-and-planning-in-the-youth-justice-system/assetplus-assessment-and-planning-in-the-youth-justice-system [Cyrchwyd 3 Mawrth 2016]

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2014b). *AssetPlus Guidance: Assessment and Planning Interventions Framework: User Guide for Youth Justice Practitioners*

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (Hydref 2016). *AssetPlus Timau Troseddau Ieuenctid deployment list.* Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/556037/AssetPlus_deployment_list_26-09-2016.xls [Cyrchwyd 1 Tachwedd 2016]

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. (2012). *Profiling Welsh young people with prolific offending histories*. Heb ei gyhoeddi

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. (2015, drafft). *Enhanced Case Management Project: Practice Guidance Practice Materials for Test Implementation of the Enhanced Case Management Approach*. Heb ei gyhoeddi

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (2016, e-bost). *Enhanced Case Management Project Extension.* E-bost a anfonwyd at Timau Troseddau Ieuenctid y treial ym mis Ebrill 2016.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. (Dim dyddiad). *Case management practice: site selection*. Heb ei gyhoeddi

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Llywodraeth Cymru. (Dim dyddiad). *Enhanced Case Management: Developing our approach to complex cases in youth offending teams*. Heb ei gyhoeddi.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2017). *Youth Justice Statistics 2015/16: England and Wales*